Rhif ymchwil gymdeithasol: 75/2026

Dyddiad cyhoeddi: 29/07/2026

# Adolygiad o'r dirwedd ddata ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i fesur cynnydd tuag at amcanion bwriadedig cynllun 'Mwy na geiriau' (2022 i 2027)

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80853-044-9

Adolygiad o’r dirwedd ddata ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i fesur cynnydd tuag at amcanion bwriadedig cynllun ‘Mwy na geiriau’ (2022 i 2027)

Awduron: Alma Economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2026). Adolygiad o’r dirwedd ddata ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i fesur cynnydd tuag at amcanion bwriadedig cynllun ‘Mwy na geiriau’ (2022 i 2027). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 75/20226

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Polisi'r Gymraeg

Grŵp Iechyd, Gofal ac Atal

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

**hss.polisi’rgymraeg@llyw.cymru**

## Tabl cynnwys


Rhestr o dermau ..... 4

1. Cyflwyniad a chefndir ..... 7

1.1. Mwy na geiriau a'r angen am ddata gwell ..... 7

1.2. Nodau ac amcanion ..... 8

1.3. Strwythur yr adroddiad ..... 9

2. Methodoleg ..... 10

2.1. Mapio ac adolygu ffynonellau data ..... 10

2.2. Datblygu'r fframwaith o ddangosyddion ..... 11

2.3. Nodi bylchau a datblygu argymhellion ..... 13

3. Trosolwg o'r dirwedd ddata ..... 15

3.1. Ffynonellau data sy'n berthnasol i ofal iechyd ..... 15

3.1.1. GIG Cymru ..... 15

3.1.2. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ..... 19

3.1.3. Comisiynydd y Gymraeg ..... 20

3.1.4. Arolwg Llywodraeth Cymru o sgiliau Cymraeg aelodau byrddau yn y sector cyhoeddus ..... 22

3.2. Ffynonellau data sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol ..... 22

3.2.1. Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ..... 22

3.2.2. Awdurdodau lleol ..... 23

3.2.3. Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) ..... 24

3.3. Ffynonellau data sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol ..... 25

3.3.1. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ..... 25

3.3.2. Medr – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ..... 26

3.4. Ffynonellau data ychwanegol o berthnasedd cyfyngedig ar gyfer monitro cynnydd 28

3.4.1. Arolwg Cenedlaethol Cymru ..... 28

3.4.2. Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ..... 28

3.4.3. Arolygon o Ddangosyddion a Adroddwyd gan Gleifion (PaRIS) ..... 29

3.4.4. Arolwg defnydd iaith ..... 29

4. Fframwaith dangosyddion ..... 31

4.1. Y Cynnig Rhagweithiol a chyflenwi gwasanaethau dwyieithog ..... 34

4.1.1. Dangosyddion sy'n berthnasol i ofal iechyd ..... 34

4.1.2. Dangosyddion sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol ....................................... 35
4.2. Galw am wasanaethau yn y Gymraeg ................................................................. 37
4.2.1. Dangosyddion sy'n berthnasol i ofal iechyd .................................................. 37
4.2.2. Dangosyddion sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol ....................................... 39
4.3. Gallu’r gweithlu yn y Gymraeg ........................................................................ 40
4.3.1. Dangosyddion sy'n berthnasol i ofal iechyd .................................................. 40
4.3.2. Dangosyddion sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol ....................................... 43
4.4. Gallu gweithlu’r dyfodol yn y Gymraeg ............................................................ 44
4.4.1. Dangosyddion sy'n berthnasol i ofal iechyd .................................................. 45
4.4.2. Dangosyddion sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol ....................................... 47
5. Cyfyngiadau'r dirwedd ddata a gwelliannau a argymhellir ..................................... 50
5.1. Y Cynnig Rhagweithiol a chyflenwi gwasanaethau dwyieithog ............................ 51
5.1.1. Diffyg asesu strwythuredig o'r Cynnig Rhagweithiol mewn arolygiadau gofal iechyd 51
5.1.2. Amrywiad yn y defnydd o Arolwg Profiad y Bobl mewn gofal iechyd a diffyg dull cymharol mewn gofal cymdeithasol ........................................................ 51
5.1.3. Bwlch yn y data ar gyflawni ceisiadau am ddefnyddio’r Gymraeg yng ngwasanaeth 111 y GIG ................................................................................ 52
5.2. Galw am wasanaethau yn y Gymraeg ................................................................. 52
5.2.1. Cofnodi iaith defnyddwyr gwasanaethau yn anghyson mewn gofal iechyd .... 52
5.2.2. Cysondeb cyfyngedig mewn tystiolaeth o arolygon lefel y boblogaeth ........... 54
5.3. Gallu’r gweithlu yn y Gymraeg ........................................................................ 54
5.3.1. Dibynadwyedd data hunangofnodedig ar allu yn y Gymraeg ......................... 54
5.3.2. Methiant i wella sgiliau Cymraeg yn rheolaidd ............................................... 55
5.3.3. Gwelededd cyfyngedig o sgiliau Cymraeg cynnar .......................................... 56
5.3.4. Diffyg tystiolaeth ar ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle ............................... 56
5.3.5. Diffyg data cyson ar ofynion y Gymraeg wrth recriwtio ym maes gofal cymdeithasol ............................................................................................ 57
5.3.6. Heriau wrth gysylltu gallu Cymraeg y gweithlu â grwpiau â blaenoriaeth Mwy na geiriau .............................................................................................. 57
5.3.7. Cyfraddau cwblhau data ar allu yn y Gymraeg isel yn System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru ...................................................................... 58
5.3.8. Bylchau yn y data ar weithgarwch dysgu'r Gymraeg yn y gweithlu ................ 59
5.3.9. Diffyg llif data cydlynol rhwng addysg a’r gweithlu .......................................... 59
6. Casgliadau ............................................................................................................ 61

7. Atodiad I: Ffynonellau data o fewn y cwmpas – crynodeb o’r wybodaeth allweddol 63
7.1. Ffynonellau data sy'n berthnasol i ofal iechyd .... 63
7.1.1. GIG Cymru .... 63
7.1.2. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru .... 67
7.1.3. Comisiynydd y Gymraeg .... 68
7.1.4. Arolwg Llywodraeth Cymru o sgiliau Cymraeg aelodau byrddau yn y sector cyhoeddus .... 69
7.2. Ffynonellau data sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol .... 70
7.2.1. Arolygiaeth Gofal Cymru .... 70
7.2.2. Awdurdodau lleol .... 72
7.2.3. Gofal Cymdeithasol Cymru .... 72
7.3. Ffynonellau data sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol .... 74
7.3.1. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol .... 74
7.3.2. Medr – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil .... 75

# Rhestr o dermau

**Cynnig Rhagweithiol**

Egwyddor graidd Mwy na geiriau, gan gyfeirio at ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg heb i unigolion orfod gofyn amdanynt. Mae'n rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr gwasanaethau i gynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol.

**Yr Hierarchiaeth Cydgasglu Cyffredin**

Fframwaith a ddefnyddir i grwpio meysydd pwnc mewn data addysg uwch, yn seiliedig ar y Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch, gan alluogi dadansoddi ar wahanol lefelau o fanylder.

**Y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR)**

Fframwaith a gydnabyddir yn rhyngwladol a ddefnyddir i ddisgrifio gallu ieithyddol ar draws graddfa chwe lefel (A1 i C2), o ddechreuwr i hyfedredd.

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

Yr arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC)**

Y sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi ac astudio trwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydweithio â cholegau addysg bellach, ysgolion, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr.

**Iechyd a Gofal Digidol Cymru**

Y sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddarparu a rheoli gwasanaethau digidol a systemau data ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Systemau Gwybodaeth Feddygol Egton (EMIS)**

System TG glinigol a ddefnyddir mewn ymarfer cyffredinol i reoli cofnodion cleifion, gan gynnwys gwybodaeth ddemograffig a chlinigol.

**Cofnod Staff Electronig**

System genedlaethol y gweithlu a ddefnyddir ar draws GIG Cymru i gofnodi gwybodaeth am bob gweithiwr, gan gynnwys sgiliau Cymraeg.

**Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)**

Y corff ledled y DU sy'n gyfrifol am gasglu, dadansoddi a chyhoeddi data ar addysg uwch.

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)**

Yr arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

**Dangosydd**

Mesur meintiol a ddefnyddir i olrhain cynnydd dros amser yn erbyn canlyniad neu amcan penodol.

**Fframwaith dangosyddion**

Set strwythuredig o ddangosyddion wedi'u cynllunio i fonitro cynnydd ar draws meysydd thematig allweddol.

**Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru**

Y set ddata genedlaethol sy'n cwmpasu dysgwyr mewn addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol i oedolion yng Nghymru.

**Medr (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)**

Y corff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ariannu, rheoleiddio a goruchwylio addysg ac ymchwil ôl-16 yng Nghymru.

**Mwy na geiriau**

Nod fframwaith strategol Llywodraeth Cymru oedd cryfhau'r ddarpariaeth o'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

**Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru**

Sefydliad sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth i GIG Cymru, gan gynnwys systemau'r gweithlu, caffael, a gwasanaethau data.

**Arolwg Profiad y Bobl**

Arolwg cenedlaethol a ddefnyddir ar draws GIG Cymru i gasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau ar eu profiadau o ofal iechyd, gan gynnwys eu gallu i gyfathrebu yn eu dewis iaith.

**Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth**

Hunanasesiad statudol a gwblheir gan ddarparwyr gofal plant a chwarae yng Nghymru, gan gynnwys gwybodaeth am iaith y ddarpariaeth gwasanaeth.

**Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)**

Y corff cenedlaethol sy'n gyfrifol am reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, gosod safonau, a chasglu data am y gweithlu yng Nghymru.

**StatsCymru**

Llwyfan ar-lein Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi ystadegau swyddogol a thablau data.

**Safonau'r Gymraeg**

Set o ofynion statudol a osodir ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg ac yn hyrwyddo defnydd o’r iaith.

**Cofnod Gofal Nyrsio Cymru**

System ddigidol genedlaethol a ddefnyddir yn GIG Cymru i gofnodi gwybodaeth nyrsio safonol, gan gynnwys dewisiadau iaith cleifion.

**System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru**

System a ddefnyddir i gasglu data am y gweithlu gan bractisau cyffredinol yng Nghymru, gan gynnwys gwybodaeth am allu yn y Gymraeg.

# 1. Cyflwyniad a chefndir

## 1.1. Mwy na geiriau a'r angen am ddata gwell

Mae cynllun Llywodraeth Cymru Mwy na geiriau 2022 i 2027 yn amlinellu dull cenedlaethol o gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae strategaeth Mwy na geiriau yn adeiladu ar fersiynau blaenorol o'r fframwaith ac mae'n cyd-fynd yn agos ag uchelgeisiau ehangach Cymraeg 2050 a Cymru Iachach.

Mae'r cynllun yn amlinellu rhaglen pum mlynedd o gamau gweithredu a gynlluniwyd i ymgorffori'r Gymraeg yn fwy systematig ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ganolog i'r fframwaith mae egwyddor y Cynnig Rhagweithiol, sy'n rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr gwasanaethau i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg yn rhagweithiol yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i unigolion ofyn amdanynt. Mae'r cynllun, sydd wedi'i strwythuro o amgylch set o themâu a chamau gweithredu sylfaenol, yn canolbwyntio ar gryfhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd, gwella cynllunio a data'r Gymraeg, datblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithlu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, hyrwyddo gweithgarwch rhannu arferion da ar draws y sector, a monitro ac adrodd parhaus.

Er mwyn llywio datblygiad cynllun Mwy na geiriau 2022 i 2027, gwerthuswyd y fframwaith Mwy na geiriau blaenorol (2016 i 2019) i asesu sut ac i ba raddau yr oedd wedi cyflawni ei nodau bwriadedig, a hefyd i nodi rhwystrau a galluogwyr i'w weithredu. Un o'r prif heriau hirdymor a amlygwyd gan y gwerthusiad oedd y diffyg data cyson o ansawdd uchel sydd ar gael i fonitro cynnydd y sector tuag at amcanion Mwy na geiriau ac, yn fwy cyffredinol, tuag at ganlyniadau gwell i siaradwyr Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth ar feysydd fel sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a'r gweithlu yn y dyfodol, y Cynnig Rhagweithiol a darparu gwasanaethau dwyieithog, ac anghenion a dewisiadau iaith defnyddwyr gwasanaethau.

Mewn ymateb i'r heriau hyn, mae cynllun Mwy na geiriau 2022 i 2027 yn cynnwys nifer o gamau gweithredu sydd â'r nod o gryfhau'r sail dystiolaeth ar gyfer monitro cynnydd a chefnogi cynllunio ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn benodol, mae adran *monitro cynnydd* y cynllun yn ymrwymo i wneud y canlynol:

- datblygu ymhellach y mapio o'r data sydd ar gael a gyflwynir yn Atodiad A[1] i'r fframwaith a nodi unrhyw fylchau yn y sylfaen dystiolaeth bresennol sy'n cyfyngu ar y gallu i fesur cynnydd
- datblygu dangosyddion, gan ddefnyddio data sydd ar gael pan fo modd, i fesur y cynnydd a wnaed tuag at y Cynnig Rhagweithiol a'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog, gan nodi meysydd lle byddai angen data ychwanegol

[1] Mae Atodiad A yn rhoi trosolwg cychwynnol o ffynonellau data presennol sy'n ymwneud ag (i) gallu pobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn y Gymraeg a (ii) y Cynnig Rhagweithiol o wasanaethau Cymraeg ar draws y sector.

- sefydlu gweithgor i ddatblygu dangosfwrdd sy'n dwyn ynghyd ddata perfformiad perthnasol i ddangos y cynnydd a wnaed ar y Cynnig Rhagweithiol a'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog dros amser

Ochr yn ochr â'r camau gweithredu hyn sy'n canolbwyntio ar fonitro, mae'r cynllun hefyd yn pwysleisio'r angen i gryfhau ymchwil a data yn ehangach. Mae hyn yn cynnwys Cam Gweithredu 5 o dan y thema 'Cynllunio a pholisïau'r Gymraeg, gan gynnwys data', sy'n galw am nodi a datblygu ymchwil a data i gryfhau dealltwriaeth o brofiadau siaradwyr Cymraeg wrth gael mynediad at wasanaethau a'u derbyn, er mwyn cefnogi polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chynllunio'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r camau gweithredu a amlinellir yn Mwy na geiriau wedi'u halinio'n uniongyrchol â safonau'r Gymraeg, sy'n darparu'r fframwaith statudol ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn Saesneg ac yn Gymraeg, gan hyrwyddo mynediad cyfartal ac ansawdd gofal i siaradwyr Cymraeg.

Mae'n bwysig cydnabod bod gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol gyfrifoldebau statudol eisoes i adrodd ar safonau'r Gymraeg, a bod data'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o'r broses flynyddol o adrodd ar wasanaethau Cymraeg. Mae ystod ehangach o wasanaethau yn ddarostyngedig i'r fframwaith rheoleiddio, sy'n cynnwys nid yn unig gwasanaethau clinigol, ond hefyd gwasanaethau eraill a reoleiddir drwy safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau gweithredu a safonau llunio polisi. Mae'r ffynonellau data hyn eisoes yn rhoi cipolwg rheoledig ar sut mae sefydliadau'n cyflawni eu dyletswyddau o ran y Gymraeg.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ble mae data sydd wedi'i gynnwys yn yr ymarfer mapio hefyd yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar safonau'r Gymraeg. Pan fo'n briodol (gweler y meini prawf cynnwys a amlinellir yn Adran 3), mae data perthnasol a ddarparwyd i Gomisiynydd y Gymraeg, neu a gomisiynwyd ganddo, i gefnogi'r broses o adrodd ar safonau'r Gymraeg wedi'i gynnwys yn y dirwedd ddata sydd wedi'i mapio.

## 1.2. Nodau ac amcanion

Yn y cyd-destun hwn, comisiynodd Llywodraeth Cymru Alma Economics, o dan weinyddiaeth flaenorol, i gynnal adolygiad o'r dirwedd ddata ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn canolbwyntio ar feysydd â blaenoriaeth sy'n cyd-fynd â nodau craidd Mwy na geiriau.

Mae prif nodau ac amcanion y prosiect fel a ganlyn:

- **mapio ac adolygu ffynonellau data presennol** sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth o Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a hynny drwy adolygiad cynhwysfawr pen desg sydd wedi'i lywio gan randdeiliaid o setiau data gweinyddol, arolygon, datganiadau rheoleiddiol, a ffynonellau eraill sy'n ymwneud â sefydliadau, y gweithlu a defnyddwyr gwasanaethau

- **asesu'r dirwedd ddata bresennol**, gan gynnwys cryfderau a chyfyngiadau systemau casglu data presennol, y graddau y gall data sydd ar gael gefnogi’r broses o fonitro’r ddarpariaeth Gymraeg, a lle mae bylchau pwysig yn y dystiolaeth o hyd
- **datblygu set ymarferol o ddangosyddion** y gellir eu defnyddio i fesur y cynnydd a wnaed dros amser tuag at ganlyniadau allweddol Mwy na geiriau, gan gynnwys cyflawni'r Cynnig Rhagweithiol, darparu gwasanaethau dwyieithog, a sicrhau canlyniadau gwell i siaradwyr Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- **nodi cyfleoedd i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth**, gan gynnwys argymhellion ar sut y gellid gwella’r gwaith o gasglu, rhannu a dadansoddi data i gefnogi gwaith monitro, gwerthuso a datblygu polisïau yn well yn y dyfodol

## 1.3. Strwythur yr adroddiad

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Pennod 2** yn amlinellu'r **fethodoleg** a ddefnyddiwyd i nodi, mapio ac adolygu ffynonellau data perthnasol, datblygu'r fframwaith dangosyddion, a nodi’r prif fylchau a gwelliannau posibl
- Mae **Pennod 3** yn rhoi **trosolwg o'r dirwedd ddata**, gan gyflwyno'r prif ffynonellau data a nodwyd fel rhai perthnasol i fonitro’r ddarpariaeth Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gyda **disgrifiadau manwl** pellach o bob ffynhonnell yn **Atodiad I**
- Mae **Pennod 4** yn amlinellu’r **fframwaith dangosyddion** arfaethedig, wedi'i drefnu ar draws meysydd thematig ac yn gwahaniaethu rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol
- Mae **Pennod 5** yn trafod y prif **fylchau a chyfyngiadau** yn y dirwedd ddata bresennol ac yn cyflwyno cyfres o **welliannau argymelledig** i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth yn y dyfodol
- Mae **Pennod 6** yn darparu **sylwadau cloi**, gan grynhoi prif ganfyddiadau'r ymchwil a'u goblygiadau ar gyfer monitro a datblygu polisïau yn y dyfodol

# 2. Methodoleg

Digwyddodd y prif weithgareddau methodolegol a ddisgrifir yn yr adran hon rhwng mis Hydref 2025 a mis Mawrth 2026. Cynhaliwyd y gwaith o fapio ac adolygu ffynonellau data, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymchwil ben desg, rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2025. Yna cafodd canfyddiadau'r cyfnod hwn eu syntheseiddio mewn adroddiad dros dro ddechrau mis Rhagfyr 2025 a ddefnyddiwyd i ddilysu a mireinio'r mapio data cyn cam nesaf y gwaith.

Ymgymerwyd â’r gwaith o ddatblygu’r fframwaith o ddangosyddion, ynghyd â nodi bylchau ac argymhellion, rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2026. Yna cynullwyd grŵp ffocws arbenigol ddechrau mis Mawrth 2026 i brofi a mireinio'r canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg, ynghyd â’r dangosyddion arfaethedig a'r argymhellion.

## 2.1. Mapio ac adolygu ffynonellau data

Mae'r adran hon yn disgrifio'r dull a ddefnyddir i nodi, mapio ac asesu ffynonellau data sy'n berthnasol i’r ddarpariaeth Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Y nod oedd adolygu ffynonellau data yn systematig a allai lywio dangosyddion ar gyfer monitro’r cynnydd a wnaed yn erbyn canlyniadau strategol Mwy na geiriau.

Roedd y dull yn cynnwys dwy brif gydran: (i) nodi ffynonellau data perthnasol, a (ii) adolygiad strwythuredig gan ddefnyddio fframwaith safonol.

Cymhwyswyd meini prawf cynnwys eang. Ystyriwyd unrhyw ffynhonnell ddata a allai lywio un neu ragor o ddangosyddion yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Cafodd ffynonellau eu heithrio:

- pan nad oeddent yn cynhyrchu data strwythuredig addas ar gyfer monitro – er enghraifft, oherwydd eu bod yn darparu allbynnau naratif neu ansoddol yn unig
- pan oeddent yn cynrychioli ymarferion untro heb unrhyw obaith clir o gasglu data yn rheolaidd dros amser

Cafodd yr ymarfer mapio ei lywio gan weithgarwch ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid yn y sector. At ei gilydd, cynhaliwyd 12 cyfweliad unigol a grŵp gyda 23 o unigolion ar draws amrywiaeth o sefydliadau, fel yr amlinellir isod:

- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr)
- Llywodraeth Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg

Darparwyd gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol hefyd gan wyth bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd lleol, a chan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ategwyd y gweithgarwch ymgysylltu sylfaenol hwn gan ymchwil ben desg wedi'i thargedu er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth sydd ar gael yn cael sylw cynhwysfawr ac i ddyfnhau dealltwriaeth o'r ffynonellau data a nodwyd trwy ymgynghoriadau â rhanddeiliaid.

Yn ogystal â nodi ffynonellau data, roedd rhan greiddiol o'r gwaith yn cynnwys cynnal adolygiad strwythuredig o bob ffynhonnell. Mae'r data a nodwyd yn amrywio'n fawr o ran math a diben, gan gwmpasu systemau gweinyddol, datganiadau statudol, tystiolaeth arolygu, cofnodion y gweithlu a data arolygon. Felly datblygwyd fframwaith dadansoddol safonol i alluogi cymhariaeth ystyrlon ar draws ffynonellau.

Adolygwyd pob ffynhonnell ddata yn erbyn set o feysydd thematig, gan gynnwys:

- yr wybodaeth Gymraeg a gasglwyd a'r meysydd data perthnasol
- y boblogaeth neu'r uned arsylwi
- y prosesau casglu neu gyflwyno data a’u hamlder
- hygyrchedd (h.y. a yw'r data ar gael i'r cyhoedd, wedi’i gyhoeddi'n rhannol, neu wedi’i gadw'n fewnol)
- heriau neu gyfyngiadau allweddol sy'n effeithio ar ansawdd y data neu ei werth dadansoddol

Cafodd canfyddiadau’r cyfnod hwn eu dogfennu mewn adroddiad dros dro, a gafodd ei adolygu gan weithgor Llywodraeth Cymru a grŵp llywio’r prosiect er mwyn sicrhau cyflawnrwydd y gwaith mapio data a chywirdeb yr wybodaeth a gofnodwyd ar gyfer pob ffynhonnell ddata. Cyflwynir prif allbynnau'r dadansoddiad hwn ym Mhennod 3 (Trosolwg o'r dirwedd ddata) ac Atodiad I, lle disgrifir pob ffynhonnell ddata gan ddefnyddio fformat strwythuredig.

## 2.2. Datblygu'r fframwaith o ddangosyddion

Gan adeiladu ar waith mapio ac adolygu o’r ffynonellau data, canolbwyntiodd y cam hwn o'r gwaith ar ddatblygu set o ddangosyddion i gefnogi’r broses o fonitro’r ddarpariaeth Gymraeg, gan gynnwys y Cynnig Rhagweithiol a darparu gwasanaethau dwyieithog mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Cafodd y broses o ddatblygu dangosyddion ei harwain gan set gyson o egwyddorion, gan gynnwys perthnasedd polisi, cysondeb â chanlyniadau Mwy na geiriau, hyfywedd cynhyrchu gan ddefnyddio data presennol, cysondeb dros amser, a'r gallu i gefnogi gwaith monitro ystyrlon ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol. Lle roedd cyfyngiadau data yn atal datblygiad dangosyddion cadarn, ystyriwyd y cyfyngiadau hyn fel rhan o'r asesiad ehangach o fylchau yn y dirwedd ddata ac fe wnaethant lywio’r broses o ddatblygu argymhellion ar gyfer gwelliant yn y dyfodol.

Roedd y broses ddatblygu yn cynnwys adolygiad systematig o bob ffynhonnell ddata. Ar gyfer pob ffynhonnell ddata, nodwyd ac archwiliwyd y meysydd data perthnasol yn y Gymraeg yn fanwl. Rhoddwyd sylw arbennig i’r ffordd y mae'r newidynnau hyn yn cael eu diffinio a'u cofnodi, gan gynnwys y categorïau a'r graddfeydd a ddefnyddir, yn ogystal â'r boblogaeth neu'r uned ddadansoddi a gwmpesir gan bob ffynhonnell ddata.

Yna lluniwyd dangosyddion i adlewyrchu'r wybodaeth a gasglwyd gan y meysydd data hyn. Roedd hyn yn cynnwys trosi newidynnau data yn fesurau ystyrlon, perthnasol i bolisi, a fynegir fel arfer fel cyfrannau neu gyfraddau (er enghraifft, cyfran y staff â lefel benodol o allu yn y Gymraeg). Roedd diffiniad pob dangosydd wedi'i alinio'n agos â strwythur y data a'r boblogaeth a gwmpaswyd, gan sicrhau bod dangosyddion yn adlewyrchu'n gywir y data sylfaenol a'r grwpiau y maent yn ymwneud â nhw (er enghraifft, grwpiau’r gweithlu, mathau o leoliadau, darparwyr gwasanaethau).

Lle gellid defnyddio sawl ffynhonnell ddata i lunio dangosyddion tebyg, cymhwyswyd proses ddethol i nodi'r mesur mwyaf priodol, yn seiliedig ar gwmpas, cyflawnrwydd ac ansawdd cyffredinol y data sylfaenol.

Roedd cam pellach yn cynnwys asesu hyfywedd pob dangosydd. Yn benodol, dosbarthwyd dangosyddion yn ôl a ellid eu cynhyrchu gan ddefnyddio data sydd ar gael i'r cyhoedd eisoes neu a fyddai eu gweithredu yn gofyn am fewnbwn ychwanegol gan randdeiliaid perthnasol yn y sector. Ar gyfer dangosyddion yn y categori olaf, nodwyd y gofynion data penodol a'r sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu'r data hwn i Lywodraeth Cymru i gefnogi eu rhoi ar waith yn ymarferol.

Pan fo’n berthnasol, mapiwyd pob dangosydd i gamau gweithredu penodol o fewn cynllun Mwy na geiriau, gan nodi sut y gallai gyfrannu at fonitro’r cynnydd a wnaed yn erbyn ymrwymiadau polisi penodol. Rhoddwyd sylw arbennig hefyd i a oedd y dangosyddion yn cyd-fynd â'r fframwaith rheoleiddio statudol ac a allent ddangos cynnydd yn erbyn safonau'r Gymraeg.

Yn olaf, trefnwyd y dangosyddion yn bedair thema gyffredinol sy'n adlewyrchu dimensiynau craidd darpariaeth y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Cymhwyswyd y themâu hyn yn gyson ar draws gofal iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddarparu ffordd strwythuredig o gyflwyno'r dangosyddion wrth gadw'r gwahaniaeth rhwng y ddau sector.

Cafodd y fframwaith ei fireinio drwy ymgysylltu â gweithgor Llywodraeth Cymru a gwaith dilynol wedi'i dargedu gyda sefydliadau sy'n berchen ar ddata i ddilysu hyfywedd a chywirdeb y dangosyddion arfaethedig.

## 2.3. Nodi bylchau a datblygu argymhellion

Gan adeiladu ar y gwaith mapio ac adolygu ffynonellau data ac i ddatblygu'r fframwaith o ddangosyddion, canolbwyntiodd y cam hwn ar nodi bylchau a chyfyngiadau allweddol yn y dirwedd ddata gyfredol. Roedd hefyd yn cynnwys datblygu argymhellion i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer monitro'r Cynnig Rhagweithiol a darparu gwasanaethau dwyieithog.

At ddibenion yr adolygiad hwn, diffinnir bylchau a chyfyngiadau data fel agweddau ar y dirwedd ddata gyfredol sy'n cyfyngu ar y gallu i fonitro'r ddarpariaeth Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffordd gyson ac ystyrlon y gellir ei hailadrodd. Mae'r rhain yn cynnwys sefyllfaoedd lle nad yw data perthnasol ar gael a lle mae'n anghyflawn, yn anghyson ar draws sefydliadau neu sectorau, heb fod ar gael yn rheolaidd, neu heb ei gasglu mewn ffordd sy'n galluogi monitro effeithiol o ganlyniadau.

Cynhaliwyd asesiad cymharol o ddata gofal iechyd a gofal cymdeithasol hefyd, gan amlygu gwahaniaethau rhwng y ddau sector o ran argaeledd, ansawdd a chysondeb data. Yn benodol, tynnodd hyn sylw at feysydd lle mae un sector yn elwa ar wybodaeth a gesglir yn fwy cynhwysfawr neu'n fwy systematig na'r llall, gan lywio argymhellion i wella aliniad a chysondeb ar draws y dirwedd ddata.

Trefnwyd bylchau a nodwyd a gwelliannau posibl gan ddefnyddio'r un fframwaith thematig â'r set o ddangosyddion. Darparodd hyn sail gyson ar gyfer asesu ble mae'r sail dystiolaeth yn gryfach a ble mae cyfyngiadau pwysig o hyd.

Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, datblygwyd set o welliannau posibl i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd a chryfhau'r dirwedd ddata dros amser. Bwriad yr argymhellion hyn yw cefnogi datblygiad tymor hwy o sylfaen dystiolaeth fwy cydlynol, cyson a chadarn ar gyfer monitro'r ddarpariaeth Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Maent yn amrywio o ran eu lefel o benodolrwydd ac uniongyrchedd. Mae rhai'n ymwneud â chamau gweithredu wedi'u diffinio'n glir, megis gwelliannau i arferion casglu neu adrodd data presennol, tra bod eraill yn tynnu sylw at feysydd ehangach lle gallai fod angen ystyriaeth, cydlynu neu ddatblygiad pellach ar lefel y system.

I brofi a mireinio'r canfyddiadau ymhellach, cynullwyd grŵp ffocws arbenigol, gan ddod ag 16 o gyfranogwyr o naw sefydliad ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd.[2] Rhoddodd y sesiwn gyfle i gyflwyno'r fframwaith drafft o ddangosyddion a'r argymhellion rhagarweiniol.Canolbwyntiodd y trafodaethau ar ymarferoldeb gweithredu'r dangosyddion arfaethedig, heriau posibl, a nodi unrhyw ddangosyddion ychwanegol y gellid eu datblygu. Gwahoddwyd cyfranogwyr hefyd i roi adborth ar y camau gwella arfaethedig, gan gynnwys a yw'r rhain yn adlewyrchu bylchau allweddol yn y dirwedd ddata gyfredol yn briodol ac a ydynt yn debygol o fod yn effeithiol yn y tymor canolig i'r hirdymor. Llywiodd

[2] Y sefydliadau a gynrychiolwyd yn y grŵp ffocws oedd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), Llywodraeth Cymru, a Chomisiynydd y Gymraeg.

mewnwelediadau gan y grŵp ffocws waith mireinio pellach ar fframwaith y dangosyddion a'r set derfynol o argymhellion.

# 3. Trosolwg o'r dirwedd ddata

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o ffynonellau data a nodwyd fel rhai a allai fod yn berthnasol i fonitro’r cynnydd a wnaed tuag at nodau Mwy na geiriau, yn seiliedig ar y meini prawf cynnwys a amlinellir yn Adran 2.1. Mae'n cyflwyno pob ffynhonnell ddata, gan roi trosolwg lefel uchel, gyda dadansoddiad mwy manwl a strwythuredig yn Atodiad I, lle disgrifir pob ffynhonnell ddata gan ddefnyddio fformat tabl safonol. Mae'r atodiad yn canolbwyntio ar elfennau allweddol sy'n berthnasol i ddatblygu dangosyddion, gan gynnwys y meysydd data perthnasol, y boblogaeth neu'r uned arsylwi, amlder casglu neu gyflwyno’r data, a hygyrchedd y data (er enghraifft, a yw ar gael i'r cyhoedd neu a gedwir yn fewnol).

Mae'r ffynonellau data a gyflwynir yn yr adrannau canlynol wedi'u grwpio yn ôl y sefydliadau sy'n gyfrifol am gasglu neu ddal y data. Mae adran olaf yn tynnu sylw at ffynonellau ychwanegol a ystyriwyd fel rhan o'r adolygiad ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwmpas, gan eu bod yn cynnig gwerth mwy cyfyngedig ar gyfer monitro’r cynnydd a wnaed tuag at nodau Mwy na geiriau na'r ffynonellau craidd a gynhwyswyd.

## 3.1. Ffynonellau data sy'n berthnasol i ofal iechyd

### 3.1.1. GIG Cymru

O fewn GIG Cymru, mae nifer o systemau digidol a gweinyddol cenedlaethol yn casglu gwybodaeth sy'n berthnasol i sgiliau, dewisiadau a darparu gwasanaethau Cymraeg. Caiff y systemau hyn eu rheoli gan wahanol gyrff – gan gynnwys Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru – a'u defnyddio'n lleol ar draws byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, ond maent i gyd yn gweithredu fel rhan o seilwaith ehangach GIG Cymru ac felly cânt eu hystyried gyda'i gilydd yn yr adran hon.

#### 3.1.1.1. Cofnod Staff Electronig

Y Cofnod Staff Electronig yw system genedlaethol y gweithlu a ddefnyddir ar draws GIG Cymru ac mae'n dal gwybodaeth am holl weithwyr y GIG, gan gynnwys staff clinigol ac anghlinigol, parhaol a dros dro. Fel rhan o'r cofnod hwn, mae staff ar hyn o bryd yn hunanasesu eu sgiliau Gymraeg mewn gwrando/siarad, darllen ac ysgrifennu gan ddefnyddio graddfa safonol o 0 i 5 (o ‘dim sgiliau’ i ‘hyfedrus’). Caiff gwybodaeth am y Gymraeg ei nodi pan fydd unigolyn yn ymuno â'r sefydliad, ac mae cyflawnrwydd yr wybodaeth yn gyffredinol uchel, ond mae'r broses a pha mor aml y caiff y meysydd hyn eu diweddaru'n amrywio ar draws byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd. Oherwydd bod y data wedi’i hunan-adrodd, gall cywirdeb gael ei effeithio gan hyder staff a pha mor gyson y mae unigolion yn deall ac yn cymhwyso'r raddfa hyfedredd 0 i 5, ac mae tystiolaeth anecdotaidd o gyfweliadau â rhanddeiliaid bod staff yn tueddu i dan-adrodd eu gallu. Mae data’r Cofnod Staff Electronig yn cael ei gadw'n fewnol gan bob sefydliad GIG; mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn rheoli seilwaith y system ond nid yw'n cael mynediad rheolaidd at ddata am y gweithlu ar lefel sefydliad, tra bod gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) fynediad ar lefel genedlaethol at ddibenion rheoleiddio.

#### 3.1.1.2. System recriwtio GIG Cymru (Trac/Civica)

Mae system recriwtio genedlaethol GIG Cymru, a weithredir gan Civica (Trac gynt) ac a oruchwylir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, yn cofnodi'r gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer pob swydd wag a hysbysebir ar draws byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd. Wrth greu hysbyseb swydd, rhaid i reolwyr aseinio un o bedwar categori ("Cymraeg hanfodol", "Cymraeg yn ddymunol", "Cymraeg i'w dysgu", neu "Nid yw'r Gymraeg yn ofynnol"), sy'n golygu bod y system yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr ar lefel swyddi gwag ar sut mae disgwyliadau o ran y Gymraeg yn cael eu diffinio ar draws rolau'r GIG. Mae pob sefydliad yn defnyddio'r system, gan olygu bod sylw llawn yn cael ei roi i'r tua 15,000 i 16,000 o swyddi a hysbysebir bob blwyddyn. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn echdynnu'r data hwn ac yn cynhyrchu adroddiad blynyddol mewnol ar gyfer pob cyflogwr yn crynhoi categoreiddio Cymraeg eu swyddi gwag. Er bod cwmpas a chyflawnrwydd yn gryf, mae cysondeb yn y ffordd y caiff swyddi gwag eu categoreiddio yn dibynnu ar ymarfer lleol: mae rhai sefydliadau'n defnyddio fframweithiau asesu strwythuredig i bennu'r gofyniad priodol o ran y Gymraeg ar gyfer pob swydd, tra bod eraill yn dibynnu mwy ar farn rheolwyr unigol.

Yn ogystal â gwybodaeth ar lefel swyddi gwag, mae'r system hefyd yn casglu data ar sgiliau Cymraeg ymgeiswyr ac elfennau o'r broses recriwtio, gan gynnwys a yw ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg yn cael eu rhoi ar restr fer a'u penodi. Fodd bynnag, dim ond am gyfnod cyfyngedig (chwe mis) y cedwir y data hwn ac nid yw'n cael ei gyfuno'n rheolaidd at ddibenion dadansoddi. Pan fo modd ei gyrchu, gallai roi cipolwg gwerthfawr ar ganlyniadau recriwtio a'r graddau y mae gofynion y Gymraeg yn cael eu hadlewyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau am lunio rhestrau byr a phenodi dros amser.

#### 3.1.1.3. Datganiadau'r Fframwaith Sicrwydd contractau ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

O dan y Fframwaith Sicrwydd Contractau ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, mae byrddau iechyd yn monitro a yw practisau meddygon teulu yn bodloni eu rhwymedigaethau contractiol, gan gynnwys gofynion sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth Gymraeg. Bob blwyddyn, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cyhoeddi ffurflen sicrwydd contract flynyddol i bob practis, sy'n cynnwys set o gwestiynau Ie/Na ar wasanaethau Cymraeg. Mae'r rhain yn cwmpasu a yw practisau'n darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, a ydynt yn gofyn am anghenion iaith cleifion ac yn eu cofnodi, argaeledd deunyddiau dwyieithog, ac a yw staff yn cael eu hannog neu eu cefnogi i ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg yn y gweithle. Darperir ymatebion ar lefel y practis a chânt eu llunio gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i'r Porth Gofal Sylfaenol, lle gall byrddau iechyd adolygu canlyniadau at ddibenion sicrwydd a goruchwylio. Disgwylir y ffurflen gan bob practis meddyg teulu ac mae'n rhoi golwg gyson, ledled Cymru, ar gydymffurfedd hunan-adroddedig â disgwyliadau o ran y Gymraeg. Fodd bynnag, mae gan y data rai cyfyngiadau perthnasol: mae rhai cwestiynau'n gymharol eang (e.e. "A yw'r practis yn annog staff i ddogfennu dewis iaith y claf ar bob dogfennaeth, gan gynnwys atgyfeiriadau?"), ac nid yw'r fformat ymateb deuaidd Ie/Na yn cofnodi amrywiad yn ansawdd na graddau gwaith gweithredu.

#### 3.1.1.4. Hunanasesiad o sicrwydd ansawdd ar gyfer practisau deintyddol

Mae'n ofynnol i bractisau deintyddol gwblhau hunanasesiad blynyddol o sicrwydd ansawdd, sef proses hunanasesu a ddefnyddir i gefnogi gweithgarwch sicrhau ansawdd a diogelwch yng ngwasanaethau deintyddol cyffredinol/personol y GIG. Mae'r hunanasesiad o sicrwydd ansawdd yn cynnwys cwestiynau ynghylch a all y practis gyfathrebu â chleifion drwy gyfrwng y Gymraeg ac a oes gwybodaeth ysgrifenedig ar gael mewn ieithoedd heblaw Saesneg, gyda lle i ddarparu rhagor o fanylion. Gallai'r meysydd hyn ddarparu gwybodaeth ar lefel ymarfer ar y ddarpariaeth Gymraeg yng ngwasanaethau deintyddol y GIG, er bod y cwestiynau am y Gymraeg yn ymddangos yn gyfyngedig o ran cwmpas ac nid ydynt yn adlewyrchu graddfa na chysondeb y ddarpariaeth.

#### 3.1.1.5. Cofnod Gofal Nyrsio Cymru

System ddigidol genedlaethol a ddefnyddir ar draws wardiau cleifion mewnol i oedolion yng Nghymru i gofnodi dogfennaeth nyrsio safonol yw Cofnod Gofal Nyrsio Cymru. Wedi'i ddatblygu a'i reoli gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru, mae'n cyfuno nifer o ffurflenni traddodiadol a ffurflenni papur yn un llwyfan cenedlaethol a fabwysiadwyd gan bob bwrdd iechyd. Ymhlith yr wybodaeth a gesglir yn ystod asesiadau arferol, mae Cofnod Gofal Nyrsio Cymru yn cofnodi dewis iaith a mamiaith cleifion gan ddefnyddio opsiynau ymateb wedi'u diffinio ymlaen llaw. Mae'r sylw'n gynhwysfawr ar draws wardiau cleifion mewnol i oedolion, ac mae dyfyniadau data a adolygwyd ar gyfer y prosiect hwn yn dangos cyfraddau cwblhau cyson uchel ar gyfer y meysydd iaith. Er nad yw'r system yn cynhyrchu unrhyw setiau data sydd ar gael i'r cyhoedd, mae sefydliadau unigol y GIG yn gallu echdynnu'r data yn lleol ar gyfer gweithgarwch adrodd mewnol.

#### 3.1.1.6. Systemau gweinyddu eraill i gleifion

Mae nifer o systemau gweinyddol digidol a ddatblygwyd neu a gefnogir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn casglu gwybodaeth ddemograffig am gleifion ac yn cael eu defnyddio ar draws gwahanol sefydliadau o fewn GIG Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, System Gweinyddu Cleifion Cymru, a ddefnyddir yn y rhan fwyaf o leoliadau gofal eilaidd, systemau clinigol meddygon teulu fel EMIS (sy'n cael ei chyflwyno'n genedlaethol ar hyn o bryd), a'r llwyfan Dewis Fferyllfa a ddefnyddir mewn fferyllfeydd cymunedol. Mae gan yr holl systemau hyn y gallu technegol i gofnodi dewis iaith neu allu ieithyddol claf, er bod strwythur a geiriad y meysydd hyn yn amrywio ar draws systemau. Yn yr un modd, nid oes unrhyw arferion cofrestru safonol na chylchoedd diweddaru. Mae'r cwmpas ledled Cymru yn eang oherwydd bod y systemau hyn yn rhan o weinyddiaeth arferol cleifion, ond mae cyflawnrwydd data iaith yn amrywiol iawn, oherwydd bod cwblhau'r wybodaeth fel arfer yn ddewisol ac yn dibynnu ar lifoedd gwaith a blaenoriaethau lleol. O ganlyniad, er bod gan y systemau hyn y potensial i ddal data defnyddiol am ddewisiadau Cymraeg ar raddfa fawr, mae'r diffyg safoni a'r cofnodi anghyson yn golygu nad oes modd eu trin ar hyn o bryd fel set ddata genedlaethol gydlynol.

#### 3.1.1.7. Arolwg Profiad y Bobl

Arolwg Profiad y Bobl yw'r arolwg cenedlaethol, parhaus a ddefnyddir ar draws GIG Cymru i gasglu adborth anhysbys, amser real gan bobl sydd wedi rhyngweithio â gwasanaethau

iechyd yn ddiweddar. Caiff yr arolwg ei gyflwyno drwy lwyfan Civica Experience a'i ddefnyddio'n lleol gan fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, ond mae'n gweithredu o fewn un fframwaith cenedlaethol. Mae'n berthnasol ar draws pob sector a math o wasanaeth y GIG, er bod y rhan fwyaf o'r ymatebion hyd yn hyn wedi dod o leoliadau gofal eilaidd. Mae'r arolwg yn cynnwys set fach o gwestiynau am y Gymraeg sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Profiad Pobl. Mae'r rhain yn gofyn i bobl nodi'r iaith gyfathrebu a ffefrir ganddynt (gyda'r Gymraeg yn cael ei chynnig fel opsiwn penodol) ac a oeddent yn gallu cyfathrebu yn yr iaith honno wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Ochr yn ochr â phrif Arolwg Profiad y Bobl, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn rheoli nifer o arolygon profiad cenedlaethol cysylltiedig ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol, gan gynnwys gofal cymunedol uwch, gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, a phlant sy'n derbyn gofal. Yn ogystal, mae llawer o sefydliadau'n cynnal eu harolygon lleol eu hunain ar yr un llwyfan digidol. Disgwylir i bob arolwg cenedlaethol a lleol ddilyn Arolwg Profiad y Bobl, sy'n gosod cwestiynau craidd i gefnogi cysondeb yn y ffordd y caiff profiadau pobl eu cofnodi ar draws y GIG.

#### 3.1.1.8. System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru

System wybodaeth ddigidol am y gweithlu ar y we ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol yng Nghymru yw System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru. Yng nghyd-destun yr adolygiad hwn, mae'r data perthnasol a gyhoeddwyd am y Gymraeg ar hyn o bryd yn ymwneud â staff sy'n gweithio mewn practisau cyffredinol. Mae'r data hwn yn cwmpasu gallu Cymraeg ymarferwyr cyffredinol cwbl gymwysedig yn ogystal â staff ehangach practisau, gan gynnwys nyrsys, staff gofal cleifion uniongyrchol, a rolau gweinyddol neu anghlinigol.

Caiff data ei fewnbynnu gan reolwyr practisau a'i ddiweddaru bob chwarter, gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cynnal gwiriadau dilysu i wella ansawdd data cyn rhannu data dienw ag ystadegwyr Llywodraeth Cymru i'w ddilysu a'i ddadansoddi ymhellach. Cyhoeddir ystadegau sy'n deillio o'r system yn flynyddol ar StatsCymru, gan gynnwys allbynnau pwrpasol ar sgiliau Cymraeg ymhlith meddygon teulu a staff ehangach mewn practisau, wedi'u dadgyfuno yn ôl bwrdd iechyd lleol. Felly mae'r system yn darparu ffynhonnell wybodaeth gyson a ddiwedderir yn rheolaidd am sgiliau Cymraeg o fewn y gweithlu ymarfer cyffredinol. Fodd bynnag, mae cyflawnrwydd data ar allu yn y Gymraeg yn parhau i fod yn gymharol gyfyngedig, gyda'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar adeg ysgrifennu'n dangos mai dim ond ar gyfer tua 54% o feddygon teulu a staff practisau y mae'r wybodaeth hon wedi'i chofnodi.[3]

Y bwriad yw y bydd data ar sgiliau Cymraeg deintyddion hefyd yn cael ei gasglu drwy System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru ar ôl i'r system gael ei gweithredu'n llawn ar draws practisau deintyddol yng Nghymru. Er bod gan y system swyddogaeth wybodaeth ehangach ar gyfer y gweithlu gofal sylfaenol a chymunedol, ni nododd yr adolygiad hwn dystiolaeth bod data sgiliau Cymraeg yn cael ei gasglu nac yn cael ei adrodd ar hyn o bryd drwy System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru ar gyfer gweithluoedd gofal sylfaenol

[3] Mae setiau data perthnasol ar gael drwy dudalen bwnc ymarfer cyffredinol StatsCymru.

neu gymunedol eraill y tu hwnt i ymarfer cyffredinol a chwmpas cynlluniedig practisau deintyddol.

#### 3.1.1.9. Data gweithgarwch gwasanaeth 111 y GIG

Mae data ar weithgarwch gwasanaeth 111 y GIG yn darparu gwybodaeth am nifer y galwadau i'r gwasanaeth yng Nghymru, gan gynnwys nifer y galwadau a gynigiwyd, a atebwyd ac a adawyd. O berthnasedd arbennig i'r astudiaeth hon, mae'r data hefyd yn cofnodi nifer y galwadau lle nododd y galwr ei bod yn well ganddo gynnal y rhyngweithio yn y Gymraeg. Mae data yn cael ei gasglu gan fyrddau iechyd lleol a'i gyflwyno i Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, sy'n llunio ac yn darparu set ddata gyfunol i Lywodraeth Cymru yn fisol. Cyhoeddir ystadegau bob mis ar StatsCymru, gan gynnig ffynhonnell wybodaeth reolaidd a chyson am y galw am ddarpariaeth Gymraeg o fewn gwasanaeth 111 y GIG.

### 3.1.2. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

Mae AGIC yn casglu sawl math o wybodaeth a all roi cipolwg ar y defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd. Mae'r rhain yn cynnwys tystiolaeth a gasglwyd yn ystod arolygiadau, ymatebion i arolygon a gasglwyd yng nghyd-destun arolygiadau, a phryderon a gyflwynwyd yn uniongyrchol i AGIC gan staff ac aelodau'r cyhoedd.

Cynhyrchir adroddiadau arolygu yn dilyn pob arolygiad o leoliad gofal iechyd a'u cyhoeddi mewn adran bwrpasol o wefan AGIC. Yn aml, maent yn cynnwys adran ar gyfathrebu ac iaith, a all roi trosolwg o ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau dwyieithog a'r Cynnig Rhagweithiol yn y lleoliad hwnnw. Fodd bynnag, nid yw pob adroddiad yn rhoi sylwadau ar y pynciau hyn, ac, yn bwysicaf oll, nid oes fformat safonol ar gyfer adrodd amdanynt ar hyn o bryd (yn wahanol i'r dull a ddefnyddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru). Dim ond lle mae arolygwyr yn nodi materion perthnasol y cynhwysir ystyriaethau ynghylch y Gymraeg, a chânt eu cyflwyno drwy arsylwadau naratif a chamau gwella wedi'u teilwra yn hytrach na meysydd strwythuredig. Yn yr un modd, gall pryderon a gyflwynir i AGIC gyfeirio at faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, ond cânt eu cofnodi mewn testun rhydd yn hytrach nag mewn fformat cyson, wedi'i gyfundrefnu. O ganlyniad, nid oes modd trin y ffynonellau hyn fel setiau data cymharol na systematig sy'n addas at ddibenion dadansoddol ac maent wedi'u heithrio o gwmpas yr adolygiad hwn.

#### 3.1.2.1. Arolygon arolygu

Fel rhan o'i weithgarwch arolygu, mae AGIC yn gweinyddu arolygon i gleifion, teuluoedd a gofalwyr, yn ogystal ag i staff sy'n gweithio yn y lleoliadau a arolygwyd. Defnyddir yr arolygon hyn mewn arolygiadau â rhybudd a heb rybudd ac maent yn cynnwys set fach o gwestiynau safonol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. I gleifion, teuluoedd a gofalwyr, mae'r arolygon yn gofyn am ddewis iaith, a gynigiwyd y Cynnig Rhagweithiol ai peidio, pa mor gyfforddus ydynt wrth ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y gwasanaeth, ac argaeledd gwybodaeth yn y Gymraeg. Mae arolwg y staff yn cynnwys cwestiynau am allu yn y Gymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn rhyngweithiadau bob dydd, a ofynnir i gleifion beth yw eu dewis iaith, a chyfleoedd i gwblhau hyfforddiant yn y Gymraeg. Mae'r sylw a roddir i hyn yn amrywio yn dibynnu ar fath ac amlder yr arolygiadau, yn ogystal â'r graddau y mae

gwasanaethau unigol yn hyrwyddo'r arolwg yn ystod y ffenestr arolygu. Ni chyhoeddir ymatebion i arolygon fel setiau data annibynnol; er y gellir cyfeirio at rai canfyddiadau mewn adroddiadau arolygu unigol pan fo'n berthnasol, mae AGIC yn cadw'r set ddata lawn yn fewnol.

### 3.1.3. Comisiynydd y Gymraeg

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am hyrwyddo a hwyluso defnydd o’r Gymraeg ac am reoleiddio cydymffurfedd â safonau’r Gymraeg ar draws cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau’r GIG. Fel rhan o'r rôl reoleiddio hon, mae'r comisiynydd yn casglu sawl math o wybodaeth sy'n rhoi cipolwg ar ddarpariaeth Gymraeg, capasiti'r gweithlu, a chydymffurfedd sefydliadol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â chydymffurfedd â safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau gweithredu a safonau llunio polisïau.

Dylid nodi, pan fo’r casgliadau data hyn yn berthnasol i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol, bod gwybodaeth a adroddir gan awdurdodau lleol fel arfer yn ymwneud â'r sefydliad cyfan yn hytrach na gwasanaethau gofal cymdeithasol yn benodol. O ganlyniad, nid oes modd ystyried y rhain yn ffynonellau tystiolaeth ar gyfer darpariaeth Gymraeg mewn gofal cymdeithasol ac felly fe'u hystyrir yn bennaf mewn perthynas â gofal iechyd yn yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, mae gan Gomisiynydd y Gymraeg bwerau i ofyn am wybodaeth berthnasol gan sefydliadau mewn perthynas â chydymffurfedd â safonau’r Gymraeg, a gellid defnyddio’r pwerau hyn yn y dyfodol i gefnogi’r broses o gasglu data sy’n benodol i wasanaethau gofal cymdeithasol.

#### 3.1.3.1. Holiaduron hunanasesu blynyddol

Bob blwyddyn, mae Comisiynydd y Gymraeg yn cyhoeddi holiaduron hunanasesu i gyrff sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg (gan gynnwys byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau), gan ofyn iddynt adrodd ar eu lefel sicrwydd yn erbyn pob safon iaith sy'n berthnasol iddynt. Mae'r holiaduron yn cwmpasu pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg ac ymarfer mewnol y sefydliad, gan gynnwys gohebiaeth, gwasanaethau ffôn, presenoldeb ar-lein, cyfarfodydd, recriwtio a hyfforddi staff, cadw cofnodion, a llunio polisïau. Ar gyfer pob safon neu grŵp o safonau (sy'n cwmpasu safonau darparu gwasanaethau, safonau llunio polisïau, safonau gweithredol a safonau cadw cofnodion, yn ogystal â safonau sy'n ymdrin â materion atodol), mae sefydliadau'n neilltuo un o bedair lefel sicrwydd: uchel, canolig, isel, neu ddim sicrwydd. Cyflwynir holiaduron wedi'u cwblhau yn flynyddol a chânt eu cadw gan Gomisiynydd y Gymraeg.

#### 3.1.3.2. Adroddiadau cydymffurfio blynyddol ar gyfer safonau’r Gymraeg

Rhaid i bob corff sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg gyhoeddi adroddiad blynyddol yn amlinellu sut y maent wedi cydymffurfio â'r safonau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Cynhyrchir yr adroddiadau hyn yn annibynnol gan bob sefydliad a'u cyhoeddi ar eu gwefannau. Er bod eu strwythur a'u lefel manylder yn amrywio, rhaid i bob adroddiad gynnwys gwybodaeth feintiol am y canlynol:

- nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg

- presenoldeb mewn hyfforddiant cyfrwng Cymraeg
- canran y rheini a gwblhaodd fersiwn Gymraeg lle cynigiwyd cyrsiau dwyieithog
- nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl categori gofyniad Cymraeg (hanfodol, i'w dysgu, dymunol, ddim yn ofynnol)
- nifer y cwynion a ddaeth i law yn ymwneud â chydymffurfedd â'r safonau

Y tu hwnt i'r dangosyddion gofynnol hyn, mae sefydliadau fel arfer yn cynnwys sylwebaeth draethiadol ar weithgarwch ehangach yn y Gymraeg. Fodd bynnag, gall absenoldeb templed adrodd safonol gyfyngu ar gymaroldeb ar draws sefydliadau.

Dylid nodi hefyd fod nifer o safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau, gan gynnwys byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, gadw cofnodion o gydymffurfedd. Er nad yw'r safonau o reidrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl wybodaeth o'r fath gael ei hadrodd yn gyhoeddus, gall Comisiynydd y Gymraeg ofyn am wybodaeth berthnasol fel rhan o'r broses reoleiddio. Mae hyn yn bwysig wrth ystyried y dirwedd ddata ehangach, gan y gallai rhywfaint o wybodaeth sy'n berthnasol i ddarpariaeth Gymraeg fod eisoes yn cael ei chadw'n fewnol gan sefydliadau, hyd yn oed pan nad yw'n cael ei chyhoeddi'n rheolaidd.

#### 3.1.3.3. Casglu data sylfaenol Safon 110

Fel rhan o weithredu Safon 110, sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ddatblygu cynllun pum mlynedd ar gyfer cynyddu nifer yr ymgynghoriadau clinigol a gynigir yn y Gymraeg, yn hydref 2025, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg gais data sylfaenol untro i bob bwrdd iechyd. Y bwriad yw sefydlu man cychwyn y gellir asesu cynnydd ohono. Gofynnir i fyrddau iechyd nodi (i) faint o staff sy'n darparu gwasanaethau clinigol a pha gyfran y mae hyn yn ei chynrychioli o'u gweithlu cyffredinol, (ii) faint o'r staff clinigol hynny sydd â sgiliau Cymraeg ar Lefel 3 neu uwch (y trothwy a ystyrir yn fras yn ddigonol ar gyfer darparu gofal yn y Gymraeg), a (iii) ble mae'r staff clinigol hyn sy'n siarad Cymraeg wedi'u lleoli ar draws y sefydliad.

#### 3.1.3.4. Data ychwanegol a gasglwyd ac a gomisiynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyflwyno cynllun monitro sydd wedi cynnwys swyddogion yn monitro gwasanaethau'n uniongyrchol drwy arolygon 'siopwyr cudd', gyda'r bwriad o rannu canfyddiadau'n uniongyrchol â sefydliadau. Mae canlyniadau'r arolygon hyn wedi cael eu dadansoddi a'u cyhoeddi mewn adroddiadau sicrwydd blynyddol. Mae'r meysydd a gwmpesir gan yr arolygon wedi cynnwys: swyddi a recriwtio, gan gynnwys sut roedd sefydliadau'n categoreiddio gofynion o ran y Gymraeg, argaeledd dogfennaeth yn y Gymraeg, a'u hasesiad o ofynion Cymraeg; gwasanaethau ffôn a gohebiaeth; gwefannau a deunyddiau cyhoeddusrwydd; dogfennau a ffurflenni; cyfryngau cymdeithasol; a hunaniaeth a dogfennaeth gorfforaethol, megis adroddiadau blynyddol, gweithdrefnau cwyno a pholisïau cydymffurfio.

Mae Comisiynydd y Gymraeg hefyd wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau perfformiad, sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- gwaith monitro: arolygon profiad defnyddwyr, gwirio adroddiadau a chofnodion blynyddol, ac astudiaethau thematig
- ymgysylltu â defnyddwyr: cynnal amrywiol ddigwyddiadau ledled Cymru i glywed am brofiadau pobl
- cysylltu â sefydliadau: cynnal cyfarfodydd a gweithdai

Mae Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn cynnal arolwg defnyddwyr blynyddol o farn siaradwyr Cymraeg ar wasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd yr arolwg diweddaraf, a gynhaliwyd ddiwedd 2025, yn cynnwys sampl o 737 o siaradwyr Cymraeg o bob cwr o Gymru, gyda chanfyddiadau wedi'u cynnwys yn adroddiad Comisiynydd y Gymraeg *Cyfle ein cenhedlaeth: Adroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg*. Mae gan yr arolwg defnyddwyr hwn y potensial i gasglu rhagor o wybodaeth am wasanaethau penodol, yn unol â blaenoriaethau strategol y comisiynydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

### 3.1.4. Arolwg Llywodraeth Cymru o sgiliau Cymraeg aelodau byrddau yn y sector cyhoeddus

Mae arolwg Llywodraeth Cymru o sgiliau Cymraeg aelodau byrddau'r sector cyhoeddus yn darparu gwybodaeth am allu aelodau byrddau yn y Gymraeg ar draws cyrff cyhoeddus rheoleiddiedig yng Nghymru, gan gynnwys sefydliadau'r GIG. Mae'r arolwg yn casglu data hunangofnodedig ar sgiliau Cymraeg ar draws pedwar dimensiwn (siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu), gan ddefnyddio graddfa tair lefel yn amrywio o ddim sgiliau i sgiliau uwch. Cynhaliwyd yr arolwg cyntaf ym mis Ionawr 2025 gan Dîm Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae canlyniadau'n cael eu dadansoddi a'u hadrodd ar lefel Cymru gyfan, heb unrhyw ddadansoddiadau ar gael ar gyfer sefydliadau unigol. Felly byddai angen dadgyfuno'r data i ynysu aelodau byrddau sefydliadau'r GIG er mwyn iddo gael ei ddefnyddio fel ffynhonnell ddata berthnasol ar y Gymraeg mewn gofal iechyd.

Yn y dyfodol, disgwylir i'r arolwg gael ei integreiddio i arolwg amrywiaeth a sgiliau Cymraeg aelodau byrddau cyfun newydd, yn unol â safonau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Bwriad hyn yw cefnogi dull mwy cyson a chynhwysfawr o gasglu ac adrodd ar ddata ar amrywiaeth a sgiliau Cymraeg ar draws cyrff cyhoeddus.

## 3.2. Ffynonellau data sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol

### 3.2.1. Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

AGC yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Drwy ei weithgarwch rheoleiddio, mae AGC yn casglu sawl math o wybodaeth sy'n ymwneud ag argaeledd ac ansawdd darpariaeth Gymraeg mewn lleoliadau cofrestredig. Mae'r rhain yn cynnwys tystiolaeth a gasglwyd yn ystod arolygiadau, datganiadau hunanasesu strwythuredig gan ddarparwyr gofal plant a chwarae, a datganiadau blynyddol a gwblheir gan bob gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion a phlant.

#### 3.2.1.1. Adroddiadau arolygu

Mae AGC yn cynnal arolygiadau ar draws pob lleoliad gofal rheoleiddiedig yng Nghymru. Mae pob arolygiad yn arwain at adroddiad sydd ar gael i'r cyhoedd a gyhoeddir ar gyfeiriadur gwasanaethau gofal ar-lein AGC. Yn ogystal â chanfyddiadau traethiadol ar ansawdd a chydymffurfedd, mae pob adroddiad yn cynnwys maes pwrpasol ar y dudalen flaen sy'n cofnodi asesiad yr arolygydd o’r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol. Mynegir yr asesiad hwn gan ddefnyddio tair lefel raddio safonol sy'n gwahaniaethu rhwng gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl o ran y Gymraeg a'u diwylliant, y rhai sy'n gwneud ymdrechion neu'n gweithio tuag at wasanaeth dwyieithog, a'r rhai nad ydynt yn diwallu anghenion o ran y Gymraeg ac sydd angen eu gwella. Ar hyn o bryd, nid yw AGC yn casglu'r sgoriau hyn a’u mewnbynnu i set ddata genedlaethol, felly byddai unrhyw ddadansoddi ehangach yn gofyn am echdynnu neu samplu adroddiadau â llaw. Fodd bynnag, mae'r defnydd cyson o farn tair lefel ar y Cynnig Rhagweithiol yn golygu, mewn egwyddor, y gellid defnyddio'r wybodaeth ar gyfer cymhariaeth fwy systematig ar draws darparwyr neu ardaloedd.

#### 3.2.1.2. Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth

Mae'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn hunanasesiad statudol y mae'n rhaid i bob darparwr gofal plant a chwarae cofrestredig yng Nghymru ei gwblhau. Mae'n rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGC am nodweddion gwasanaeth, gan gynnwys iaith y ddarpariaeth. Mae darparwyr yn dosbarthu eu hunain fel cyfrwng Cymraeg, dwyieithog, cyfrwng Saesneg, neu gyfrwng Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog. Mae pob darparwr yn hunan-adrodd yr wybodaeth, ond mae AGC wedi cryfhau ei chanllawiau i annog dehongliad mwy cyson o gategorïau. Mae canfyddiadau wedi’u cyfuno ar gael trwy ddangosfwrdd rhyngweithiol pwrpasol ar wefan AGC, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr weld dosbarthiad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws awdurdodau lleol a mathau o wasanaethau.

#### 3.2.1.3. Datganiadau blynyddol ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant

Rhaid i bob darparwr gofal cymdeithasol i oedolion a phlant a reoleiddir yng Nghymru gwblhau datganiad flynyddol i AGC. Mae'r datganiadau hyn yn casglu ystod eang o wybodaeth am bob gwasanaeth, gan gynnwys maes gofynnol ar iaith y gwasanaethau a ddarperir. Mae darparwyr yn dosbarthu eu gwasanaeth fel cyfrwng Cymraeg, dwyieithog, neu gyfrwng Saesneg. Oherwydd ei bod yn orfodol i’w cwblhau, mae’r datganiadau hyn yn cynnig golwg bron yn gyflawn o’r sector gofal oedolion a phlant a reoleiddir, gan gynnwys cartrefi gofal, darparwyr cymorth cartref, asiantaethau maethu a mabwysiadu, gwasanaethau lleoli oedolion, a gwasanaethau eirioli. Cyhoeddir canlyniadau cydgasgledig drwy ddangosfwrdd pwrpasol ar wefan AGC, gan alluogi dadansoddiad yn ôl math o wasanaeth ac ardal ddaearyddol.

### 3.2.2. Awdurdodau lleol

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu dau brif ddatganiad data i Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i’r defnydd o’r Gymraeg mewn gofal cymdeithasol. Cyflwynir y datganiadau hyn yn flynyddol gan bob un o'r 22 awdurdod ac

maent yn cwmpasu gwahanol agweddau ar ymgysylltiad pobl â gwasanaethau gofal a chymorth.

#### 3.2.2.1. Datganiadau data ar lefel unigol ar bobl sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol

Mae awdurdodau lleol yn cyflwyno cofnodion gweinyddol ar lefel unigol bob blwyddyn ar gyfer pob plentyn, oedolyn ac (yn y dyfodol) gofalwr di-dâl a oedd â chynllun gofal a chymorth gweithredol yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae'r setiau data hyn yn cynnwys maes sy'n cofnodi dewis iaith yr unigolyn, fel y'i cofnodwyd yn y systemau rheoli achosion. Mewn egwyddor, mae hyn yn darparu sylw cynhwysfawr o ddewisiadau Cymraeg ymhlith pobl sy'n cael gofal a chymorth statudol. Yn ymarferol, mae arferion cofnodi yn amrywio, ac yn hanesyddol roedd rhai awdurdodau ond yn mewnbynnu iaith pan oedd yn wahanol i'r Saesneg, gan arwain at fylchau ac amwysedd. Nid oes unrhyw ystadegau sy'n deillio o'r setiau data hyn yn cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd, felly mae'r wybodaeth yn cael ei chadw'n fewnol o fewn Llywodraeth Cymru.

#### 3.2.2.2. Datganiadau data cydgasgledig ar asesiadau o anghenion

Mae awdurdodau lleol hefyd yn darparu cyfrifon cydgasgledig blynyddol o'r holl asesiadau o anghenion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer oedolion, plant, gofalwyr, a gofalwyr ifanc. Ar gyfer pob grŵp, mae'r datganiadau'n cofnodi tri mesur Cymraeg: a oedd tystiolaeth bod y Cynnig Rhagweithiol wedi'i gynnig; a gafodd ei dderbyn; ac a gynhaliwyd yr asesiad yn yr iaith a ddewiswyd gan yr unigolyn. Cyhoeddir y data hwn ar StatsCymru (ar wahân ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr) ac mae'n caniatáu cymariaethau eang ar draws awdurdodau lleol a thros amser, yn enwedig o'i gyfuno â chyfanswm nifer yr asesiadau. Fodd bynnag, gall problemau gyda chysondeb godi lle mae gwasanaethau'n gweithredu'n ddwyieithog yn ddiofyn, gan y gall rhai awdurdodau adrodd bod y Cynnig Rhagweithiol wedi'i gynnig ym mhob asesiad perthnasol ar y sail ei fod yn gynhenid i'w hymarfer, yn hytrach na'i gofnodi fel cam penodol yn y broses asesu.

### 3.2.3. Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn goruchwylio nifer o gasgliadau data sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i sgiliau a defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys y gofrestr genedlaethol o weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol, y casgliad data gweithlu blynyddol a gwblheir gan awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol, ac arolwg gweithlu blynyddol "Dweud eich dweud".

#### 3.2.3.1. Cofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae cofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru yn gofrestr statudol o'r gweithlu gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol yng Nghymru. Rhaid i bob unigolyn sy'n gweithio mewn rolau rheoleiddiedig gofrestru, gan wneud hon yn set ddata weinyddol gynhwysfawr iawn ar gyfer y sector. Gofynnir i gofrestrwyr (ond nid yw'n ofynnol iddynt) hunan-adrodd eu gallu yn y Gymraeg ar draws pedwar dimensiwn (siarad, deall, ysgrifennu a darllen) gan ddefnyddio graddfa pum lefel, o 'dim sgiliau' i 'hyfedredd'. Fodd bynnag, cyflwynir data cyhoeddedig sydd ar gael trwy Borth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru

ar ffurf fwy cydgasgledig. Yn hytrach nag adrodd ar allu yn y Gymraeg ar draws y pedwar dimensiwn sgìl a'r raddfa pum lefel, mae ffigurau cyhoeddedig yn crynhoi'r gallu cyffredinol yn y Gymraeg gan ddefnyddio categoreiddio symlach (e.e. dim Cymraeg, rhywfaint o Gymraeg, neu Gymraeg rugl), ynghyd â chategorïau dim ymateb. Oherwydd bod y maes yn ddewisol ac yn hunanasesedig, mae cyflawnrwydd a chywirdeb yn amrywio, ond mae cyfraddau ymateb yn uchel, ac mae'r gofrestr yn darparu'r trosolwg mwyaf cyson, y gellir ei gymharu'n genedlaethol, o sgiliau Cymraeg yn y gweithlu gofal cymdeithasol rheoleiddiedig.

#### 3.2.3.2. Casglu data gweithlu blynyddol

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn casglu data gweithlu yn flynyddol sy'n cwmpasu awdurdodau lleol a darparwyr gofal annibynnol. Mae'r casgliad hwn yn cynnwys cwestiwn safonol ar allu yn y Gymraeg, gan ddefnyddio pum categori o "dim gallu" i "uwch". Er bod datganiadau'n orfodol i awdurdodau lleol, mae cyfranogiad gan ddarparwyr annibynnol yn wirfoddol; mae Gofal Cymdeithasol Cymru felly'n defnyddio dulliau ystadegol i amcangyfrif cyfansymiau cyffredinol y gweithlu. Cyhoeddir canlyniadau ar y Gymraeg yn adroddiadau blynyddol Gofal Cymdeithasol Cymru ar y gweithlu gofal cymdeithasol. Oherwydd bod cyfranogiad yn amrywio ar draws blynyddoedd, yn enwedig ymhlith darparwyr annibynnol, gall y data ddangos amrywiadau sy'n adlewyrchu patrymau ymateb cymaint â newid sylfaenol yn y gweithlu. Serch hynny, mae'n parhau i fod yn ffynhonnell bwysig ar gyfer deall sgiliau Cymraeg ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol ehangach, gan gynnwys y rhai nad ydynt efallai wedi'u cynnwys yn y gofrestr statudol.

#### 3.2.3.3. Arolwg "Dweud eich dweud"

Mae arolwg "Dweud eich dweud" yn arolwg blynyddol, gwirfoddol o'r gweithlu gofal cymdeithasol sy'n casglu gwybodaeth am brofiadau, amodau gwaith a barn gweithwyr, gan gynnwys set fach o gwestiynau ar allu yn y Gymraeg a'r defnydd ohoni. Mae ymatebwyr yn nodi eu lefel o Gymraeg, a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl, a pha mor aml maent yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Mae'r arolwg yn denu sawl mil o ymatebion bob blwyddyn (tua 7% o'r gweithlu yn 2025) ac yn rhoi cipolwg ar brofiadau a defnydd gweithwyr unigol o'r Gymraeg, er bod ei natur wirfoddol a'i gyfradd ymateb gymharol isel yn golygu y gall canfyddiadau fod yn destun gogwydd ymateb ac ni ddylid eu dehongli fel rhai sy'n gwbl gynrychioliadol o'r gweithlu. Felly mae'n ategu, yn hytrach na disodli, y data gweinyddol a gesglir drwy'r gofrestr a datganiad y gweithlu. Cyhoeddir y canlyniadau mewn adroddiadau cryno ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru, er bod canfyddiadau ar y Gymraeg fel arfer yn cael eu cydgasglu o dan gategorïau eang.

## 3.3. Ffynonellau data sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol

### 3.3.1. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn goruchwylio'r holl ddarpariaeth dysgu Cymraeg i oedolion yng Nghymru, gan gynnwys y rhaglen bwrpasol ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae pob dysgwr yn cofrestru drwy lwyfan digidol canolog, gan greu cofnod cenedlaethol unedig o gyfranogiad, hyfedredd a chynnydd, gan gynnig

ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth am sut mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ymgysylltu â dysgu'r Gymraeg dros amser.

Yn ogystal, mae'r ganolfan wedi datblygu ap newydd yn ddiweddar, *Check-in-Cymraeg*, a gynlluniwyd i gofnodi defnydd o'r Gymraeg yn y byd go iawn, gan gynnwys amlder, cyd-destun a hyder defnyddwyr, a fydd yn cael ei dreialu yn y sector gofal iechyd yn y dyfodol agos. Os caiff ei weithredu'n llwyddiannus, gallai hyn gynrychioli ffynhonnell ddata newydd werthfawr ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol, maes lle mae data presennol yn gyfyngedig ac yn heriol i'w gasglu oherwydd natur y maes.

#### 3.3.1.1. System Rheoli Dysgu

Y System Rheoli Dysgu yw cronfa ddata ddigidol ganolog y ganolfan a ddefnyddir i gofrestru, olrhain a rheoli pob oedolyn sy'n dysgu'r Gymraeg. Rhaid i bob dysgwr greu cyfrif i gael mynediad at gyrsiau, gan gynnwys y rhai a ddarperir yn benodol ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r system yn cofnodi manylion demograffig pob dysgwr, nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau, a lefel y Gymraeg yn seiliedig ar fframwaith CEFR (Mynediad/A1 hyd at Hyfedredd/C1–C2). Caiff cofnodion dysgwyr eu diweddaru drwy gydol eu taith ddysgu wrth i diwtoriaid asesu cynnydd neu wrth i ddysgwyr symud rhwng lefelau. O ganlyniad, mae'r system yn darparu data cynhwysfawr, hydredol ar gyfranogiad a chynnydd, y gellid ei ddefnyddio i nodi faint o weithwyr iechyd a gofal sy'n dysgu Cymraeg, eu lefelau cychwyn, sut maen nhw'n gwneud cynnydd dros amser, a sut mae patrymau dysgu yn amrywio ar draws sectorau neu ranbarthau.

### 3.3.2. Medr – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Mae darparwyr addysg ôl-16 ac addysg uwch yng Nghymru yn cynhyrchu ystod o setiau data gweinyddol sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i sgiliau Cymraeg myfyrwyr a'r broses o gyflwyno rhaglenni a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Ers 1 Ebrill 2026, mae'r setiau data hyn wedi cael eu rheoli gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ariannu a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol yng Nghymru. Er mai eu prif ddiben yw cyllido, mesur perfformiad, adrodd rheoleiddiol a chynhyrchu ystadegau swyddogol a dadansoddiadau eraill, mae pob set ddata yn cynnwys meysydd sy'n cynnig cipolwg gwerthfawr ar allu dysgwyr yn y Gymraeg a'r graddau y cyflwynir dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys mewn pynciau sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.

#### 3.3.2.1. Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yw'r set ddata weinyddol genedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru (ac eithrio dosbarthiadau chwech ysgolion ac addysg uwch). Mae'n cwmpasu pob dysgwr sydd wedi cofrestru ar ddarpariaeth a ariennir gan Medr, gan gynnwys rhaglenni addysg bellach, prentisiaethau a dysgu cymunedol i oedolion. Oherwydd bod yn rhaid i ddarparwyr gyflwyno cofnodion gweinyddol at ddibenion ariannu, mae'r cofnod yn cynnig data cynhwysfawr ar nodweddion dysgwyr, gweithgareddau dysgu a chyflwyno rhaglenni, gan gynnwys meysydd sy'n ymwneud â gallu yn y Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Mae'r cofnod yn cofnodi gallu siarad Cymraeg a hunan-adroddwyd, lefel y cymhwyster Cymraeg uchaf a ddelir cyn cofrestru,

cyfran pob rhaglen a gyflwynir yn y Gymraeg (ar gyfer prentisiaethau yn unig), a chyfrwng y ddarpariaeth ar gyfer pob gweithgaredd dysgu unigol. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau o ran sut y gellir defnyddio'r meysydd Cymraeg ar gyfer monitro. Mae gallu yn y Gymraeg yn cael ei hunanasesu, a all effeithio ar ddibynadwyedd, gan gynnwys trwy dan-adrodd neu or-adrodd posibl gan wahanol grwpiau o ddysgwyr, yn dibynnu ar sut maen nhw'n dehongli eu gallu eu hunain (er enghraifft, nododd rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r ymchwil hon y gallai dysgwyr o addysg cyfrwng Cymraeg dan-adrodd eu gallu, tra gallai dysgwyr o addysg Gymraeg ail iaith or-adrodd eu rhai nhw). Yn ogystal, cofnodir darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn bennaf ar lefel y gweithgaredd dysgu, a all ei gwneud hi'n fwy cymhleth dadansoddi defnydd yn gyson ar lefel y dysgwr unigol. Cyhoeddir rhywfaint o ddata cydgasgledig Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn flynyddol gan Medr fel adroddiadau ar eu gwefan ac ar StatsCymru.

#### 3.3.2.2. Casglu data ôl-16

Mae'r casgliad data ôl-16 yn darparu set ddata weinyddol debyg ar gyfer dysgwyr sydd mewn chweched dosbarth ysgolion. Mae'n cipio nodweddion dysgwyr, gwybodaeth am raglenni, a data manwl am weithgareddau dysgu, gan gynnwys y cyfrwng y cyflwynir pob gweithgaredd drwyddo. Yn wahanol i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, sy'n cynnwys nifer o ddangosyddion Cymraeg, mae casgliad y chweched dosbarth yn canolbwyntio'n bennaf ar iaith y cyflwyniad ar lefel y gweithgaredd, gan wahaniaethu rhwng addysgu cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a grwpiau cyfochrog. Mae cwmpas lefel uchel oherwydd bod bron pob chweched dosbarth yn cael ei ariannu gan Medr ac wedi'i gynnwys yn natganiadau blynyddol ysgolion a gyflwynir ar ôl pob blwyddyn academaidd. Er bod Medr yn cyhoeddi allbynnau ystadegol yn seiliedig ar y set ddata, mae'r allbynnau hyn yn canolbwyntio ar fesurau perfformiad ac nid ydynt ar hyn o bryd yn cynnwys meysydd cyflwyno cyfrwng Cymraeg, sydd ond ar gael o fewn y data gweinyddol mewnol.

#### 3.3.2.3. Cofnod Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Safonau Addysg Uwch (HESA)

Cofnod Myfyrwyr HESA yw'r set ddata weinyddol ledled y DU sy'n cwmpasu pob myfyriwr addysg uwch, gyda darparwyr Cymru yn cyflwyno datganiadau blynyddol manwl. Mae'r set ddata yn cynnwys meysydd sy'n benodol i allu yn y Gymraeg ar gyfer myfyrwyr sydd â domisil yng Nghymru ac sy'n astudio gyda darparwyr o Gymru. Mae hyn yn golygu nad yw data ar allu yn y Gymraeg yn cwmpasu myfyrwyr o'r tu allan i Gymru sy'n astudio gyda darparwyr Cymru, na myfyrwyr sydd â’u domisil yng Nghymru sy'n astudio y tu allan i Gymru, ac felly efallai ei fod yn tanamcangyfrif y gronfa bosibl o raddedigion sy'n siarad Cymraeg a allai ymuno â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r set ddata hefyd yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr ar lefel y modiwl ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cyfran pob modiwl a gyflwynir yn y Gymraeg a meysydd cyfatebol ar gyfer sesiynau ymchwil ôl-raddedig. Mae Cofnod Myfyrwyr a Staff HESA hefyd yn cofnodi gallu staff i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac a yw'r contract yn cynnwys addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Medr yn cyhoeddi dadansoddiadau blynyddol o'r Gymraeg mewn addysg uwch, gyda rhai ffigurau hefyd ar gael ar StatsCymru (er enghraifft, cofrestriadau addysg uwch a nifer y credydau a astudiwyd yn y Gymraeg a gallu myfyrwyr addysg uwch o Gymru i siarad Cymraeg).

## 3.4. Ffynonellau data ychwanegol o berthnasedd cyfyngedig ar gyfer monitro cynnydd

Nododd yr adolygiad hwn hefyd nifer fach o ffynonellau data ychwanegol sy'n darparu gwybodaeth a allai fod yn berthnasol i ddefnydd o’r Gymraeg a darpariaeth Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, ni chynhwyswyd y ffynonellau hyn yn y set graidd o ddata sy'n sail i'r fframwaith dangosyddion, gan eu bod yn cyflwyno cyfyngiadau sylweddol at ddiben monitro’r cynnydd a wnaed tuag at nodau Mwy na geiriau dros amser.

### 3.4.1. Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cwestiynau weithiau sy'n ymwneud â’r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw'r cwestiynau hyn wedi cael eu gofyn yn gyson ar draws blynyddoedd yr arolwg. Dros y deng mlynedd diwethaf, mae cwestiynau perthnasol wedi cynnwys y canlynol:

- yn 2024/25, gofynnwyd i ymatebwyr oedd yn siarad Cymraeg ac a oedd wedi gweld meddyg teulu yn y 12 mis blaenorol a oeddent wedi defnyddio'r Gymraeg i siarad â staff yn eu meddygfa, ac, os nad oeddent, eu rhesymau dros beidio â gwneud hynny
- yn 2017/18, gofynnwyd i ymatebwyr am eu dewisiadau iaith a'u profiadau wrth gael triniaeth mewn lleoliadau gofal iechyd, gan gynnwys a oeddent erioed wedi cael cynnig dewis iaith yn eu meddygfa neu ysbyty, pa iaith a wnaethant ei dewis, ac a oedd y dewis hwnnw yn cael ei gofio mewn apwyntiadau dilynol
- yn 2014/15, gofynnwyd i’r ymatebwyr am eu dewis iaith ar gyfer cyfathrebu â staff iechyd a gofal cymdeithasol ac a oeddent wedi defnyddio’r Gymraeg yn y rhyngweithiadau hynny yn ystod y flwyddyn flaenorol

Er bod y cwestiynau hyn, a'r dangosyddion y gellid eu deillio ohonynt, o bosibl yn berthnasol i Mwy na geiriau, dim ond o bryd i’w gilydd y maent wedi cael eu gofyn, gan ei gwneud hi'n amhosibl nodi newidiadau na monitro tueddiadau ar draws blynyddoedd. Mae'r anghysondeb hwn hefyd yn awgrymu ei bod yn annhebygol y cânt eu cynnwys yn systematig mewn tonnau arolwg yn y dyfodol.

Mae’r unig gwestiynau am y Gymraeg sydd wedi'u cynnwys yn gyson yn Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ymwneud â gallu hunanasesedig yn y Gymraeg. Fodd bynnag, gan nad yw'r arolwg yn casglu data ar sector cyflogaeth yr ymatebwyr, nid yw'n bosibl ynysu na dadansoddi ymatebion yn benodol ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

### 3.4.2. Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

Gall data cyfrifiad roi cipolwg gwerthfawr ar sgiliau Cymraeg y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gofynnir i bob ymatebydd yng Nghymru (96% o boblogaeth Cymru) a allant ddeall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Mae'r cyfrifiad hefyd yn casglu gwybodaeth am ddiwydiant a galwedigaeth pobl gyflogedig, wedi’i chodio gan ddefnyddio systemau'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol a'r Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol, yn y drefn honno. Mae hyn yn golygu ei bod hi’n bosibl dadansoddi gallu yn y

Gymraeg yn ôl sector cyflogaeth a galwedigaeth, yn ogystal ag yn ôl ardaloedd daearyddol fel awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

Fodd bynnag, mae lefel y manylder y gellir ei harchwilio yn ymarferol yn dibynnu ar reolau datgelu data, sydd ar waith i ddiogelu cyfrinachedd unigolion. Er enghraifft, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn darparu offeryn ar-lein sy'n caniatáu i ddefnyddwyr lawrlwytho ystadegau cyfrifiad cydgasgledig ar allu siarad Cymraeg yn ôl diwydiant. Gall defnyddwyr ddewis pa mor fanwl yw pob newidyn a'r lefel ddaearyddol y dangosir data arni. Ar y lefel ehangaf o ddosbarthiad diwydiant, sy'n cwmpasu sector cyffredinol *Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol* (cod Q yn y Dosbarthiad Diwydiannol Safonol), mae ffigurau ar siaradwyr Cymraeg ar gael ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, pan gaiff y dadansoddiad ei rannu un lefel ymhellach, i'r tri is-gategori dau ddigid sydd ar gael yn y Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (*Gweithgareddau ysbyty*, *Gweithgareddau gofal preswyl*, a *Gweithgareddau gwaith cymdeithasol heb lety*), dim ond ar gyfer wyth o'r 22 awdurdod lleol y mae data ar gael. Mae hyn yn dangos sut y gall cynyddu lefel y manylder gyfyngu ar argaeledd data oherwydd cyfyngiadau datgelu. Cyfyngiad mawr arall ar ddata'r cyfrifiad yw ei fod yn cael ei gasglu unwaith bob deg mlynedd yn unig, gan ei wneud yn llai addas ar gyfer monitro newidiadau tymor byr.

### 3.4.3. Arolygon o Ddangosyddion a Adroddwyd gan Gleifion (PaRIS)

Cymerodd Cymru ran ym menter Arolygon o Ddangosyddion a Adroddwyd gan Gleifion (PaRIS) y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sy'n ceisio casglu gwybodaeth y gellir ei chymharu'n rhyngwladol am ganlyniadau a phrofiadau cleifion o ofal sylfaenol yr adroddwyd gan y cleifion eu hunain. Cynhaliwyd dau arolwg cysylltiedig yng Nghymru rhwng mis Ebrill a mis Medi 2023: arolwg meddygon teulu, ac arolwg cleifion yn seiliedig ar y boblogaeth o oedolion 45 oed a throsodd. Cyfarwyddodd Llywodraeth Cymru Ganolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru i oruchwylio'r gwaith gweithredu, gyda chymorth dadansoddol gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Cymerodd ychydig o dan 26,000 o oedolion ran yn yr arolygon, ac ymatebodd 75 o feddygfeydd teulu i'r arolwg darparwyr.

Er bod yr arolwg yn cwmpasu ystod eang o bynciau, yr unig newidyn sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Gymraeg yw'r iaith a ddefnyddir gan yr ymatebydd i gwblhau'r holiadur (Cymraeg neu Saesneg). Ar hyn o bryd, dim ond rhwng yr ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg yn y Gymraeg a'r rhai a'i cwblhaodd yn Saesneg y mae'n bosibl cymharu dangosyddion yr arolwg. Fodd bynnag, mae'r cymariaethau hyn yn cynnig gwerth cyfyngedig ar gyfer monitro'r meysydd allweddol o ddefnydd a darpariaeth Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol sy'n berthnasol i gynllun Mwy na geiriau.

### 3.4.4. Arolwg defnydd iaith

Mae'r arolwg defnydd iaith yn gyfres o arolygon a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i gasglu gwybodaeth am ddefnydd o'r Gymraeg, er nad yw'n cael ei gynnal yn rheolaidd. Yr arolwg diweddaraf sydd ar gael yw'r arolwg defnydd iaith: 2019 i 2020, a ddilynodd yr arolwg defnydd iaith: 2013 i 2015. Cynhaliwyd y ddau fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Y bwriad gwreiddiol oedd i arolwg 2019 i 2020 redeg tan 2021, ond daeth y gwaith maes i ben yn gynharach nag a gynlluniwyd oherwydd pandemig COVID-19, gan gael ei

gynnal rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Mawrth 2020 ac arwain at sampl derfynol lai nag a gynlluniwyd yn wreiddiol.

Roedd y datganiad diweddaraf yn seiliedig ar arolwg 2019/20 yn cynnwys un cwestiwn oedd yn uniongyrchol berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol: gofynnwyd i'r ymatebwyr, "Gan feddwl am y tro diwethaf i chi gysylltu â'ch meddygfa neu'ch ysbyty, a gawsoch chi eu gwasanaeth cwsmeriaid yn y Gymraeg?"Roedd yr opsiynau ymateb fel a ganlyn: "Do, cafodd ei gynnig i mi"; "Do, ond roedd yn rhaid i mi ofyn amdano"; "Naddo, ond cafodd ei gynnig i mi"; a "Naddo, ni chafodd ei gynnig i mi", gan gofnodi a gynigiwyd y gwasanaeth Cymraeg yn ddiofyn, a ddarparwyd y gwasanaeth ar gais yn unig, neu a fethwyd â chynnig y gwasanaeth o gwbl.

Mae'r data cyhoeddedig yn darparu amrywiaeth o ddadansoddiadau, gan gynnwys dull cysylltu (wyneb yn wyneb, dros y ffôn, digidol), rhanbarth, oedran, rhuglder yn y Gymraeg, a newidynnau llai perthnasol eraill. Mae hyn yn caniatáu darlun eang ar lefel y boblogaeth o ba un a oedd pobl yn gallu cael mynediad at wasanaeth cwsmeriaid yn y Gymraeg yn ystod eu rhyngweithio gofal iechyd diweddaraf. Fodd bynnag, gan mai dim ond yn arolwg 2019 i 2020 y mae'r cwestiwn hwn wedi ymddangos ac nad yw'r gyfres yn rhedeg yn rheolaidd, nid yw'n cynnig ffynhonnell ddata gyson nac ailadroddadwy ar gyfer monitro'r Cynnig Rhagweithiol o'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol dros amser.

# 4. Fframwaith dangosyddion

Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, un o nodau'r ymchwil hon oedd cefnogi’r broses o weithredu'r camau gweithredu a amlinellir yng nghynllun Mwy na geiriau 2022 i 2027 sy'n ymwneud â datblygu dangosyddion i fesur cynnydd. Yn benodol, mae'r cynllun yn ymrwymo i “ddefnyddio data sydd ar gael lle bo modd, datblygu dangosyddion sy'n mesur y cynnydd a wnaed tuag at y Cynnig Rhagweithiol a darparu gwasanaethau dwyieithog, a nodi bylchau data a fyddai'n cefnogi’r gwaith o fesur cynnydd ymhellach”.

Mae'r fframwaith dangosyddion a ddatblygwyd fel rhan o'r ymchwil hon yn ymateb yn uniongyrchol i'r ymrwymiad hwn. Mae'n amlinellu set strwythuredig o ddangosyddion a gynlluniwyd i gefnogi’r gwaith o fesur a monitro’r cynnydd a wnaed dros amser tuag at gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol a darparu gwasanaethau dwyieithog ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Yn fwy cyffredinol, bwriad y fframwaith yw cryfhau'r sail dystiolaeth sydd ar gael i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid y sector, gan gefnogi gweithgarwch monitro parhaus a gwerthuso polisïau a rhaglenni yn y dyfodol sydd â'r nod o hyrwyddo darpariaeth Gymraeg.

Nodwedd allweddol o'r fframwaith yw ei fod wedi'i adeiladu'n gyfan gwbl ar ddata sydd eisoes yn bodoli o fewn y sector ac sydd wedi'i nodi a'i adolygu yn y bennod flaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu'r amcan o wneud y defnydd gorau o ffynonellau data presennol heb osod beichiau casglu data ychwanegol ar sefydliadau.

Fodd bynnag, er bod y data sylfaenol eisoes wedi’i gasglu, nid yw bob amser ar gael yn rheolaidd ar ffurf sy'n cefnogi'n uniongyrchol y gwaith o lunio dangosyddion arfaethedig. Mewn rhai achosion, nid yw data ar gael i'r cyhoedd; mewn achosion eraill, nid yw’n cael ei gyhoeddi ar y lefel o fanylder sy'n ofynnol neu nid yw’n cael ei gyfuno mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r mesurau arfaethedig. O ganlyniad, byddai gweithredu rhai dangosyddion yn gofyn am fewnbwn ychwanegol gan sefydliadau sy'n berchen ar ddata – er enghraifft, i echdynnu, cyfuno neu rannu data perthnasol â Llywodraeth Cymru.

Mae’r fframwaith dangosyddion wedi'i drefnu o amgylch pedwar maes thematig sy'n adlewyrchu dimensiynau allweddol o’r ddarpariaeth Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol:

1. **Y Cynnig Rhagweithiol a chyflenwi gwasanaethau dwyieithog:** Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau, gan ddod â thystiolaeth o ganlyniadau arolygiadau, hunanasesiadau sefydliadol, a gallu hunan-adroddedig defnyddwyr gwasanaethau i gyfathrebu yn y Gymraeg ynghyd.

2. **Galw am wasanaethau yn y Gymraeg:** Mae'r maes hwn yn ystyried i ba raddau y mae iaith rhywun yn cael ei chofnodi'n systematig a chyfran y defnyddwyr gwasanaeth sy'n gallu cyfathrebu yn y Gymraeg neu sy'n mynegi dewis i gyfathrebu yn y Gymraeg.

3. **Gallu’r gweithlu yn y Gymraeg:** Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol, gan gynnwys gallu ieithyddol a hunan-adroddwyd,

cymryd rhan mewn dysgu'r iaith, a, lle bo ar gael, tystiolaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a gofynion o ran y Gymraeg wrth recriwtio.

4. **Gallu'r gweithlu yn y Gymraeg yn y dyfodol:** Mae'r maes hwn yn ystyried myfyrwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys eu gallu yn y Gymraeg, argaeledd cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, a'r nifer sy'n achub ar ddarpariaeth o'r fath.

At ddibenion yr adroddiad hwn, mae **"gwasanaethau Cymraeg"** yn cyfeirio at wasanaethau a rhyngweithiadau sy'n galluogi pobl i gael cymorth iechyd a gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol ag amcanion Mwy na geiriau a gofynion safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Gwasanaethau clinigol a gofal lle mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn darparu asesiad, diagnosis, triniaeth neu ofal parhaus uniongyrchol ac ymarferol i unigolyn. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys barn glinigol broffesiynol a gallant gael effaith uniongyrchol ar iechyd, llesiant, diogelwch neu adferiad unigolyn. Mae Safon 110 o safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gynyddu eu gallu i gynnal ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg.

- Gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys meddygfeydd teulu, fferyllfeydd, deintyddion, optometryddion ac ystod eang o wasanaethau iechyd cymunedol. Mae safonau'r Gymraeg yn berthnasol i wasanaethau gofal sylfaenol y GIG sydd wedi'u contractio gan fyrddau iechyd, gan gynnwys deintyddion y GIG. Disgwylir hefyd i ddarparwyr annibynnol gydymffurfio â dyletswyddau perthnasol o ran y Gymraeg.

- Gwasanaethau ehangach sy'n wynebu'r cyhoedd sydd wedi'u cynnwys yn y safonau cyflenwi gwasanaethau, lle mae'r rhain yn rhan o sut mae pobl yn llywio neu'n derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn cael mynediad atynt (e.e. gohebiaeth, gwasanaethau ffôn, dogfennau a ffurflenni).

Yn y cyd-destun hwn, mae cyflwyno'r Cynnig Rhagweithiol yn cyfeirio at gynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol, yn hytrach na dibynnu ar unigolion i ofyn amdanynt.

Mae'r fframwaith dangosyddion wedi'i gynllunio i gefnogi gweithgarwch monitro rheolaidd dros amser, gyda **chylch adrodd blynyddol yn cael ei ragweld**. Yn ymarferol, mae hyn yn awgrymu:

- lle bo angen, y byddai sefydliadau'n darparu data perthnasol i Lywodraeth Cymru yn flynyddol

- lle bo'n berthnasol, y byddai mesurau'n ymwneud â data a gasglwyd neu a gofnodwyd dros y flwyddyn flaenorol

  - er enghraifft, byddai dangosyddion yn seiliedig ar ddata arolygu yn cyfeirio at arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn adrodd, tra byddai dangosyddion sy'n ymwneud â gofynion o ran y Gymraeg yn y broses recriwtio yn cyfeirio at swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn honno

Yn yr adrannau canlynol, cyflwynir dangosyddion mewn fformat safonol. Ar gyfer pob dangosydd, darperir gwybodaeth am y canlynol:

- **ffynhonnell:** y ffynhonnell/ffynonellau data a ddefnyddiwyd i lunio'r dangosydd
- **disgrifiad:** diffiniad manwl o'r dangosydd a'r mesur y mae'n ei gofnodi
- **argaeledd data:** a oes modd llunio'r dangosydd gan ddefnyddio data sydd ar gael i'r cyhoedd, wedi'i gofnodi fel Ie/Na ym mhob cofnod dangosydd. Lle cofnodir hyn fel "Na", byddai angen darparu data ychwanegol gan sefydliadau perthnasol
- **darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** y sefydliad y byddai angen iddo ddarparu data ychwanegol i alluogi cynhyrchu'r dangosydd
- **cyswllt â chamau gweithredu Mwy na geiriau:** lle bo'n berthnasol, y camau gweithredu perthnasol o fewn cynllun Mwy na geiriau y mae'r dangosydd yn ymwneud â nhw
- **dolen i safonau'r Gymraeg:** lle bo'n berthnasol, y safonau Cymraeg perthnasol neu'r dyletswyddau Cymraeg cysylltiedig y gall y dangosydd helpu i'w llywio[4]

Cyflwynir dangosyddion ar wahân ar gyfer gofal iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn caniatáu gweithgarwch monitro sy'n benodol i sectorau gwahanol. Mewn llawer o achosion, gellir dadgyfuno dangosyddion ymhellach hefyd, yn dibynnu ar anghenion dadansoddol a pholisi. Er enghraifft, gellir dadansoddi dangosyddion gofal iechyd yn ôl bwrdd iechyd, tra gellir dadansoddi dangosyddion gofal cymdeithasol yn ôl awdurdod lleol. Gall dangosyddion sy'n gysylltiedig â'r gweithlu hefyd ganiatáu ar gyfer dadansoddiadau yn ôl grŵp staff (er enghraifft, rolau clinigol ac anghlinigol) neu yn ôl maes gwasanaeth. Bydd lefel y dadgyfuno a gymhwysir yn ymarferol yn dibynnu ar ofynion monitro penodol a'r defnydd bwriadedig o'r dangosyddion.

Ar draws y pedwar maes thematig, mae'r fframwaith yn cynnwys cyfanswm o 39 o ddangosyddion, wedi'u dosbarthu fel a ganlyn:

1. mae'r **Cynnig Rhagweithiol a darparu gwasanaethau dwyieithog** yn cynnwys **naw dangosydd**, y gellir llunio tri ohonynt gan ddefnyddio data sydd ar gael yn gyhoeddus
2. mae'r **galw am wasanaethau Cymraeg** yn cynnwys **wyth dangosydd**, y gellir llunio dau ohonynt gan ddefnyddio data sydd ar gael yn gyhoeddus
3. mae **gallu'r gweithlu yn y Gymraeg** yn cynnwys **deg dangosydd**, y gellir llunio dau ohonynt gan ddefnyddio data sydd ar gael yn gyhoeddus

[4] Gellir dod o hyd i'r safonau Cymraeg perthnasol yn y codau ymarfer cysylltiedig. Ar gyfer byrddau iechyd, gweler y *Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018*; ar gyfer awdurdodau lleol, gweler y *Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015*.

4. mae **gallu gweithlu'r dyfodol yn y Gymraeg** yn cynnwys **12 dangosydd**, ac nid oes modd llunio'r un ohonynt ar hyn o bryd gan ddefnyddio data sydd ar gael yn gyhoeddus

At ei gilydd, er y gellir cynhyrchu nifer fach o ddangosyddion gan ddefnyddio data cyhoeddedig sy'n bodoli eisoes, byddai angen i sefydliadau perthnasol ddarparu data ychwanegol ar gyfer y rhan fwyaf ohonynt.

Lle mae angen mewnbwn ychwanegol ar ddangosyddion i'w gweithredu, nodir y darparwyr data perthnasol. Fodd bynnag, bydd angen pennu'r dull penodol o rannu data gyda Llywodraeth Cymru ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol yn y sector. Gall mecanweithiau presennol, fel y datganiadau data blynyddol a gyflwynir gan sefydliadau sector i gefnogi gweithgarwch adrodd blynyddol Mwy na geiriau Llywodraeth Cymru, ddarparu man cychwyn ymarferol, er y gellir ystyried dulliau amgen neu symlach hefyd pan fo'n briodol.

## 4.1. Y Cynnig Rhagweithiol a chyflenwi gwasanaethau dwyieithog

### 4.1.1. Dangosyddion sy'n berthnasol i ofal iechyd

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 1. Cyfran y cleifion, teuluoedd neu ofalwyr sy'n nodi bod gwasanaeth Cymraeg wedi cael ei gynnig iddynt yn weithredol**

- **Ffynhonnell:** Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygon Arolygu (cwestiynau i gleifion, teuluoedd neu ofalwyr)
- **Disgrifiad:** Canran yr ymatebwyr cleifion, teulu neu ofalwyr sy'n nodi eu bod wedi cael cynnig rhagweithiol i siarad Cymraeg yn ystod eu taith fel claf.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 1, Cam Gweithredu 5
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 2. Cyfran y cleifion, teuluoedd neu ofalwyr a nododd fod gwybodaeth ar gael yn y Gymraeg**

- **Ffynhonnell:** Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygon Arolygu (cwestiynau i gleifion, teuluoedd neu ofalwyr)
- **Disgrifiad:** Canran yr ymatebwyr cleifion, teulu neu ofalwyr sy'n nodi bod gwybodaeth gofal iechyd ar gael yn y Gymraeg.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 1, Cam Gweithredu 5
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 3. Cyfran y practisau cyffredinol sy'n darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg**

- **Ffynhonnell:** Datganiadau’r Fframwaith Sicrwydd Contractau ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
- **Disgrifiad:** Canran y practisau cyffredinol sy'n nodi eu bod yn darparu gwasanaethau meddygol o dan y contract drwy gyfrwng y Gymraeg.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Nac oes – ond mae'n cysylltu'n uniongyrchol â mesur y Cynnig Rhagweithiol
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau. Hefyd yn berthnasol i Safon 110 a dyletswyddau o ran y Gymraeg ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol annibynnol

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 4. Cyfran y defnyddwyr gofal iechyd sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg ac sy'n gallu cyfathrebu yn y Gymraeg (bob amser neu fel arfer)**

- **Ffynhonnell:** Arolwg Profiad y Bobl
- **Disgrifiad:** Ymhlith yr ymatebwyr i'r arolwg sy'n well ganddynt gyfathrebu yn y Gymraeg, y ganran sy'n nodi eu bod yn gallu gwneud hynny bob amser neu fel arfer.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 1, Cam Gweithredu 5
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau. Hefyd yn berthnasol i adrodd ar Safon 110

### 4.1.2. Dangosyddion sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 5. Cyfran y gwasanaethau a arolygwyd sy'n bodloni'r Cynnig Rhagweithiol**

- **Ffynhonnell:** Arolygiaeth Gofal Cymru, Adroddiadau Arolygu

- **Disgrifiad:** Canran y gwasanaethau gofal a arolygwyd a raddiwyd fel rhai sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion pobl o ran y Gymraeg a'u diwylliant.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Arolygiaeth Gofal Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Nac oes – ond mae'n cysylltu'n uniongyrchol â mesur y Cynnig Rhagweithiol
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau

### Dangosydd Perfformiad Allweddol 6. Cyfran y gwasanaethau a arolygwyd sy'n gweithio tuag at gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol

- **Ffynhonnell:** Arolygiaeth Gofal Cymru, Adroddiadau Arolygu
- **Disgrifiad:** Canran y gwasanaethau gofal a arolygwyd a gafodd eu graddio fel rhai sy'n gwneud ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu'n gweithio tuag at wasanaeth dwyieithog.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Arolygiaeth Gofal Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Nac oes – ond mae'n cysylltu'n uniongyrchol â mesur y Cynnig Rhagweithiol
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau

### Dangosydd Perfformiad Allweddol 7. Cyfran y gwasanaethau i oedolion a phlant sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog

- **Ffynhonnell:** Arolygiaeth Gofal Cymru, datganiadau blynyddol ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant
- **Disgrifiad:** Canran y gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a phlant a reoleiddir sy'n hunan-adrodd bod iaith y gwasanaethau a ddarperir ganddynt naill ai'n Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- **Argaeledd data:** Ar gael ac wedi'i gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Ddim yn berthnasol
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Nac oes – ond mae'n cysylltu'n uniongyrchol â mesur y Cynnig Rhagweithiol
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 8. Cyfran y lleoliadau gofal plant a chwarae sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog**

- **Ffynhonnell:** Arolygiaeth Gofal Cymru, Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth
- **Disgrifiad:** Canran y lleoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig sy'n hunan-adrodd bod iaith eu darpariaeth gwasanaeth naill ai'n Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- **Argaeledd data:** Ar gael ac wedi'i gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Ddim yn berthnasol
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Nac oes – ond mae'n cysylltu'n uniongyrchol â mesur y Cynnig Rhagweithiol
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 9. Cyfran yr asesiadau o anghenion gyda thystiolaeth o'r Cynnig Rhagweithiol**

- **Ffynhonnell:** Awdurdodau lleol, datganiadau data cydgasgledig ar asesiadau o anghenion
- **Disgrifiad:** Canran yr asesiadau o anghenion a gwblhawyd pan fo tystiolaeth bod Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg wedi'i gynnig.
- **Argaeledd data:** Ar gael ac wedi'i gyhoeddi ar StatsCymru fel tair set ddata ar wahân (oedolion, plant a gofalwyr)
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Ddim yn berthnasol
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Nac oes – ond mae'n cysylltu'n uniongyrchol â mesur y Cynnig Rhagweithiol
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau

## 4.2. Galw am wasanaethau yn y Gymraeg

### 4.2.1. Dangosyddion sy'n berthnasol i ofal iechyd

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 10. Cyfran o feddygfeydd teulu sy'n gofyn i gleifion am eu hanghenion o ran iaith wrth gofrestru**

- **Ffynhonnell:** Datganiadau'r Fframwaith Sicrwydd Contractau ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
- **Disgrifiad:** Canran y practisau cyffredinol sy'n nodi bod eu ffurflen gofrestru yn gofyn i gleifion yn benodol am eu hanghenion o ran iaith.

- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Nac oes – ond mae'n cysylltu'n uniongyrchol â mesur y Cynnig Rhagweithiol
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau. Hefyd yn berthnasol i adrodd ar Safon 110 a dyletswyddau o ran y Gymraeg ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol annibynnol

### Dangosydd Perfformiad Allweddol 11. Cyfran y cofnodion cleifion mewnol gyda dewis iaith wedi'i gofnodi

- **Ffynhonnell:** Cofnod Gofal Nyrsio Cymru
- **Disgrifiad:** Canran y cofnodion cleifion mewnol sy'n oedolion lle cofnodir dewis iaith.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Byrddau iechyd
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Nac oes – ond mae'n cysylltu'n uniongyrchol â mesur y Cynnig Rhagweithiol
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau. Hefyd yn berthnasol i adrodd ar Safon 110.

### Dangosydd Perfformiad Allweddol 12. Cyfran y cleifion mewnol y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt

- **Ffynhonnell:** Cofnod Gofal Nyrsio Cymru
- **Disgrifiad:** Canran y cleifion mewnol sy'n oedolion y mae'r Gymraeg wedi'i chofnodi'n iaith ddewis iddynt.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Byrddau iechyd
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Nac oes – ond mae'n cysylltu'n uniongyrchol â mesur y Cynnig Rhagweithiol
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau. Hefyd yn berthnasol i adrodd ar Safon 110.

### Dangosydd Perfformiad Allweddol 13. Cyfran y defnyddwyr gofal iechyd y mae'n well ganddynt gyfathrebu yn y Gymraeg

- **Ffynhonnell:** Arolwg Profiad y Bobl
- **Disgrifiad:** Canran yr ymatebwyr i'r arolwg sy'n dewis y Gymraeg fel yr iaith y mae'n well ganddynt gyfathrebu drwyddi.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Nac oes – ond mae'n cysylltu'n uniongyrchol â mesur y Cynnig Rhagweithiol
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau. Hefyd yn berthnasol i adrodd ar Safon 110

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 14. Cyfran y galwadau 111 a atebwyd lle gofynnwyd am y Gymraeg**

- **Ffynhonnell:** Data gweithgarwch y gwasanaeth 111
- **Disgrifiad:** Canran y galwadau 111 a atebwyd lle nododd y galwr eu bod yn dymuno cynnal yr alwad yn y Gymraeg.
- **Argaeledd data:** Ar gael ac wedi'i gyhoeddi ar StatsCymru
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Ddim yn berthnasol
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Nac oes – ond mae'n cysylltu'n uniongyrchol â mesur y Cynnig Rhagweithiol
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau

### 4.2.2. Dangosyddion sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 15. Cyfran yr unigolion mewn gofal gyda dewis iaith wedi'i gofnodi**

- **Ffynhonnell:** Awdurdodau lleol, datganiadau data ar lefel yr unigolyn ar gyfer pobl mewn gofal
- **Disgrifiad:** Canran yr unigolion sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol y mae eu dewis iaith wedi'i gofnodi yn y systemau sydd gan awdurdod lleol.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Llywodraeth Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Nac oes – ond mae'n cysylltu'n uniongyrchol â mesur y Cynnig Rhagweithiol

- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau. Hefyd yn berthnasol i adrodd ar Safon 110

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 16. Cyfran yr holl unigolion mewn gofal y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt**

- **Ffynhonnell:** Awdurdodau lleol, datganiadau data ar lefel yr unigolyn ar gyfer pobl mewn gofal
- **Disgrifiad:** Canran yr holl unigolion sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol y mae'r Gymraeg wedi'i chofnodi fel eu dewis iaith.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Llywodraeth Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Nac oes – ond mae'n cysylltu'n uniongyrchol â mesur y Cynnig Rhagweithiol
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 17. Cyfradd dderbyn y Cynnig Rhagweithiol mewn asesiadau o anghenion**

- **Ffynhonnell:** Awdurdodau lleol, datganiadau data cydgasgledig ar asesiadau o anghenion
- **Disgrifiad:** Ymhlith yr asesiadau o anghenion gyda thystiolaeth o'r Cynnig Rhagweithiol, y ganran lle derbyniwyd y cynnig.
- **Argaeledd data:** Ar gael ac wedi'i gyhoeddi ar StatsCymru fel pedair set ddata ar wahân (oedolion, plant a gofalwyr)
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Ddim yn berthnasol
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Nac oes – ond mae'n cysylltu'n uniongyrchol â mesur y Cynnig Rhagweithiol
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi gweithgarwch adrodd ar safonau cyflenwi gwasanaethau

## 4.3. Gallu'r gweithlu yn y Gymraeg

### 4.3.1. Dangosyddion sy'n berthnasol i ofal iechyd

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 18. Cyfran staff y GIG sydd â gallu siarad Cymraeg ar lefel ganolradd neu lefel uwch**

- **Ffynhonnell:** Cofnod Staff Electronig

- **Disgrifiad:** Canran gweithwyr GIG Cymru y mae eu sgiliau gwrando/siarad Cymraeg hunanasesedig wedi'u cofnodi ar Lefel 3 (canolradd) neu uwch.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Byrddau iechyd
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Cam Gweithredu 13
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi'r gwaith o adrodd ar safonau gweithredol a safonau cadw cofnodion

### Dangosydd Perfformiad Allweddol 19. Cyfran y meddygon teulu a staff ehangach y practis sydd â gallu siarad Cymraeg ar lefel ganolradd neu lefel uwch

- **Ffynhonnell:** System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru
- **Disgrifiad:** Canran y meddygon teulu cwbl gymwysedig a staff ehangach y practis y mae eu sgiliau gwrando/siarad Cymraeg hunanasesedig wedi'u cofnodi ar Lefel 3 (canolradd) neu uwch.
- **Argaeledd data:** Ar gael ac wedi'i gyhoeddi ar StatsCymru fel dwy set ddata ar wahân (meddygon teulu cwbl gymwysedig a staff ehangach practisau)
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Ddim yn berthnasol
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Cam Gweithredu 13
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi'r gwaith o adrodd ar safonau gweithredol a safonau cadw cofnodion Hefyd yn cysylltu â dyletswyddau o ran y Gymraeg darparwyr gofal sylfaenol annibynnol.

### Dangosydd Perfformiad Allweddol 20. Cwblhau cyrsiau Dysgu Cymraeg blynyddol (gan gynnwys y Cwrs Croeso a'r Cwrs Codi Hyder) gan weithwyr gofal iechyd

- **Ffynhonnell:** Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, System Rheoli Dysgu
- **Disgrifiad:** Cyfanswm nifer y gweithwyr gofal iechyd sydd wedi cwblhau o leiaf un cwrs Dysgu Cymraeg.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Cam Gweithredu 15
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi'r gwaith o adrodd ar safonau gweithredol a safonau cadw cofnodion

## Dangosydd Perfformiad Allweddol 21. Lefelau'r Gymraeg ymhlith dysgwyr gofal iechyd

- **Ffynhonnell:** Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, System Rheoli Dysgu
- **Disgrifiad:** Dosbarthiad lefelau'r Gymraeg ymhlith gweithwyr gofal iechyd sy'n dilyn cyrsiau Dysgu Cymraeg.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Cam Gweithredu 13
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi'r gwaith o adrodd ar safonau gweithredol a safonau cadw cofnodion

## Dangosydd Perfformiad Allweddol 22. Dosbarthiad gofynion Cymraeg mewn swyddi gwag a hysbysebir yn y GIG

- **Ffynhonnell:** System recriwtio GIG Cymru (Trac/Civica)
- **Disgrifiad:** Canran y dosbarthiad o swyddi gwag GIG Cymru a hysbysebir ar draws categorïau gofynion y Gymraeg ("Cymraeg yn hanfodol", "Cymraeg yn ddymunol", "Cymraeg i'w dysgu pan benodir", ac "Nid yw'r Gymraeg yn ofynnol").
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Cam Gweithredu 16
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi'r gwaith o adrodd ar safonau cadw cofnodion

## Dangosydd Perfformiad Allweddol 23. Cyfran aelodau bwrdd y GIG sydd â gallu siarad Cymraeg ar lefel ganolradd neu uwch

- **Ffynhonnell:** Arolwg o sgiliau Cymraeg aelodau bwrdd y sector cyhoeddus
- **Disgrifiad:** Canran yr aelodau bwrdd o fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd GIG Cymru y cofnodwyd bod eu sgiliau gwrando/siarad Cymraeg hunanasesedig ar lefel ganolradd neu uwch.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Llywodraeth Cymru

- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema Diwylliant ac Arweinyddiaeth, Cam Gweithredu 2
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi'r gwaith o adrodd ar safonau gweithredol a safonau cadw cofnodion

### 4.3.2. Dangosyddion sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 24. Cyfran y gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig sydd â gallu siarad Cymraeg ar lefel ganolradd neu uwch**

- **Ffynhonnell:** Gofal Cymdeithasol Cymru, Cofrestr
- **Disgrifiad:** Canran y gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol a rheolwyr cofrestredig ar gofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru y mae eu gallu hunanasesedig i siarad Cymraeg wedi'i gofnodi i fod ar lefel ganolradd neu uwch.
- **Argaeledd data:** Ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Gofal Cymdeithasol Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Cam Gweithredu 13
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi'r gwaith o adrodd ar safonau gweithredol a safonau cadw cofnodion

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 25. Cyfran y gweithlu gofal cymdeithasol sy'n nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn y gwaith**

- **Ffynhonnell:** Gofal Cymdeithasol Cymru, arolwg 'Dweud eich dweud'
- **Disgrifiad:** Canran yr ymatebwyr i'r arolwg sy'n nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser
- **Argaeledd data:** Ar gael ac wedi'i gyhoeddi ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Ddim yn berthnasol
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Cam Gweithredu 13
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi'r gwaith o adrodd ar safonau gweithredol a safonau cadw cofnodion

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 26. Cwblhau cyrsiau Dysgu Cymraeg blynyddol gan weithwyr gofal cymdeithasol**

- **Ffynhonnell:** Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, System Rheoli Dysgu
- **Disgrifiad:** Cyfanswm nifer y gweithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi cwblhau o leiaf un cwrs Dysgu Cymraeg

- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Cam Gweithredu 15
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi'r gwaith o adrodd ar safonau gweithredol a safonau cadw cofnodion

#### Dangosydd Perfformiad Allweddol 27. Lefelau Cymraeg ymhlith dysgwyr gofal cymdeithasol

- **Ffynhonnell:** Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, System Rheoli Dysgu
- **Disgrifiad:** Dosbarthiad lefelau Cymraeg ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n dilyn cyrsiau Dysgu Cymraeg
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Cam Gweithredu 13
- **Dolen i safonau'r Gymraeg:** Yn cefnogi'r gwaith o adrodd ar safonau gweithredol a safonau cadw cofnodion

### 4.4. Gallu gweithlu'r dyfodol yn y Gymraeg

Mae'r dangosyddion a gyflwynir yn yr adran hon yn tynnu ar ddwy brif ffynhonnell ddata: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, sy'n cwmpasu dysgwyr mewn addysg bellach a phrentisiaethau, a data gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), sy'n cwmpasu myfyrwyr mewn addysg uwch. Mae disgrifiadau'r dangosyddion yn nodi'r newidynnau perthnasol a ddefnyddir o fewn pob set ddata, yn ogystal â'r categorïau penodol o fewn y newidynnau hyn y mae'r dangosyddion yn seiliedig arnynt.

Ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu dangosyddion ar gyfer y maes hwn yw nodi meysydd pwnc sy'n cynrychioli gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol y dyfodol orau. Gan mai'r amcan yw casglu dysgwyr sy'n debygol o ymuno â phroffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol, mae angen gwneud rhagor o waith i ddiffinio'r grwpiau pynciau mwyaf priodol o fewn pob set ddata.

Ar gyfer data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, mae gwybodaeth fanwl am ddosbarthu pynciau o fewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith ar gael yn y datganiad ystadegol Medr hwn. Mae tablau ategol yn yr adran 'Dogfennau eilaidd' yn darparu gwybodaeth am raglenni a gweithgareddau dysgu penodol, gan gynnwys taflenni gwaith 2.2 (rhaglenni mewn colegau), 3.2 (gweithgareddau mewn colegau), a 6.2 (fframweithiau prentisiaeth).

Ar gyfer data HESA, mae dosbarthiad pynciau yn seiliedig ar y Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch (HECoS). Mae'r Hierarchiaeth Cydgasglu Cyffredin yn darparu fframwaith safonol ar gyfer grwpio codau pwnc, gyda lefelau CAH2 a CAH3 yn galluogi nodi pynciau sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae dewis y pynciau a'r rhaglenni penodol sy'n cynrychioli gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol y dyfodol orau yn gofyn am fewnbwn arbenigol a gwaith dadansoddol pellach ac felly mae y tu allan i gwmpas yr ymchwil hon. Mae'r adroddiad yn argymell bod y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ar y cyd gan Medr, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru.

### 4.4.1. Dangosyddion sy'n berthnasol i ofal iechyd

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 28. Cyfran y dysgwyr mewn addysg bellach a phrentisiaethau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd sy'n siarad Cymraeg**

- **Ffynhonnell:** Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
- **Disgrifiad:** Canran y dysgwyr sydd wedi cofrestru mewn rhaglenni addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith sy'n gysylltiedig â gofal iechyd sydd wedi'u cofnodi fel siaradwyr Cymraeg (h.y. 'Siaradwr Cymraeg rhugl' neu 'Siaradwr Cymraeg ddim yn rhugl'), yn seiliedig ar faes data LP23.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Medr
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Camau Gweithredu 21 a 22

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 29. Cyfran y gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn addysg bellach a phrentisiaethau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd**

- **Ffynhonnell:** Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
- **Disgrifiad:** Canran y gweithgareddau dysgu (cymwysterau ffurfiol yn unig) o fewn rhaglenni addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith sy'n gysylltiedig â gofal iechyd sydd wedi'u dosbarthu fel 'B2 – Cynnwys cyfrwng Cymraeg sylweddol', 'B1 – Dysgu dwyieithog' neu 'C1 – Dysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig', yn seiliedig ar faes data LA26.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Medr
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Cam Gweithredu 23

## Dangosydd Perfformiad Allweddol 30. Cyfran y dysgwyr mewn addysg bellach a phrentisiaethau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd sy'n ymgymryd â gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog

- **Ffynhonnell:** Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
- **Disgrifiad:** Canran y dysgwyr mewn rhaglenni addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a wnaeth o leiaf un gweithgaredd dysgu yn ystod y flwyddyn adrodd a ddosbarthwyd fel 'B2 – Cynnwys cyfrwng Cymraeg sylweddol', 'B1 – Dysgu dwyieithog' neu 'C1 – Dysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig', yn seiliedig ar faes data LA26.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Medr
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Camau Gweithredu 21 a 22

## Dangosydd Perfformiad Allweddol 31. Cyfran y myfyrwyr mewn addysg uwch sy'n gysylltiedig â gofal iechyd sy'n siarad Cymraeg

- **Ffynhonnell:** Cofnod Myfyrwyr a Staff HESA
- **Disgrifiad:** Canran y myfyrwyr sydd wedi cofrestru mewn rhaglenni addysg uwch sy'n gysylltiedig â gofal iechyd sydd wedi'u cofnodi fel siaradwyr Cymraeg (h.y. 'Rhugl' neu 'Gall siarad cryn dipyn'), yn seiliedig ar gyfuniad o'r meysydd data LANGPROFICIENCYID, PROFICIENCYMATE a PROFICIENCYLEVEL, a ddefnyddir i nodi'r Gymraeg, sgiliau siarad a lefel hyfedredd.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Medr neu Lywodraeth Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Camau Gweithredu 21 a 22

## Dangosydd Perfformiad Allweddol 32. Cyfran y modiwlau dysgu mewn addysg uwch sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a gyflwynir yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Gymraeg

- **Ffynhonnell:** Cofnod Myfyrwyr a Staff HESA
- **Disgrifiad:** Canran y modiwlau dysgu o fewn rhaglenni addysg uwch sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a gyflwynir yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Gymraeg, a nodwyd drwy'r maes data MODLANGID (neu PGRLANGID ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig).
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Medr neu Lywodraeth Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Cam Gweithredu 23

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 33. Cyfran y myfyrwyr mewn addysg uwch sy'n gysylltiedig â gofal iechyd sy'n ymgymryd â modiwlau a gyflwynir yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Gymraeg, yn ôl trothwy credyd**

- **Ffynhonnell:** Cofnod Myfyrwyr a Staff HESA
- **Disgrifiad:** Canran y myfyrwyr mewn rhaglenni addysg uwch sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a ymgymerodd â modiwlau a gyflwynwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd, a nodwyd drwy'r maes data MODLANGID (neu PGRLANGID ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig). Dylid cyflwyno'r dangosydd gan ddefnyddio trothwyon yn seiliedig ar nifer y credydau sydd ynghlwm wrth y modiwlau hyn, megis 5+ credyd a 40+ credyd.[5]
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Medr neu Lywodraeth Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Camau Gweithredu 21 a 22

### 4.4.2. Dangosyddion sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 34. Cyfran y dysgwyr mewn addysg bellach a phrentisiaethau sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg**

- **Ffynhonnell:** Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
- **Disgrifiad:** Canran y dysgwyr sydd wedi cofrestru mewn rhaglenni addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofnodi fel siaradwyr Cymraeg (h.y. 'Siaradwr Cymraeg rhugl' neu 'Siaradwr Cymraeg ddim yn rhugl'), yn seiliedig ar faes data LP23.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Medr
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Camau Gweithredu 21 a 22

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 35. Cyfran y gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn addysg bellach a phrentisiaethau sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol**

- **Ffynhonnell:** Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
- **Disgrifiad:** Canran y gweithgareddau dysgu (cymwysterau ffurfiol yn unig) o fewn rhaglenni addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol sydd wedi'u dosbarthu fel 'B2 – Cynnwys cyfrwng Cymraeg sylweddol',

[5] Yn ystod y broses weithredu, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am adolygu'r trothwyon hyn a dewis trothwyon amgen neu ychwanegol sy'n fwy priodol neu'n berthnasol i bolisi, gyda mewnbwn gan Medr a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

'B1 – Dysgu dwyieithog' neu 'C1 – Dysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig', yn seiliedig ar faes data LA26.

- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Medr
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Cam Gweithredu 23

### Dangosydd Perfformiad Allweddol 36. Cyfran y dysgwyr mewn addysg bellach a phrentisiaethau sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol sy'n ymgymryd â gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog

- **Ffynhonnell:** Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
- **Disgrifiad:** Canran y dysgwyr mewn rhaglenni addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol a wnaeth o leiaf un gweithgaredd dysgu yn ystod y flwyddyn adrodd a ddosbarthwyd fel 'B2 – Cynnwys cyfrwng Cymraeg sylweddol', 'B1 – Dysgu dwyieithog' neu 'C1 – Dysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig', yn seiliedig ar faes data LA26.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Medr
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Camau Gweithredu 21 a 22

### Dangosydd Perfformiad Allweddol 37. Cyfran y myfyrwyr mewn addysg uwch sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg

- **Ffynhonnell:** Cofnod Myfyrwyr a Staff HESA
- **Disgrifiad:** Canran y myfyrwyr sydd wedi cofrestru mewn rhaglenni addysg uwch sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofnodi fel siaradwyr Cymraeg (h.y. 'Rhugl' neu 'Gall siarad cryn dipyn'), yn seiliedig ar gyfuniad o'r meysydd data LANGPROFICIENCYID, PROFICIENCYMATE a PROFICIENCYLEVEL, a ddefnyddir i nodi'r Gymraeg, sgiliau siarad a lefel hyfedredd.
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Medr neu Lywodraeth Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Camau Gweithredu 21 a 22

### Dangosydd Perfformiad Allweddol 38. Cyfran y modiwlau dysgu mewn addysg uwch sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol a gyflwynir yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Gymraeg

- **Ffynhonnell:** Cofnod Myfyrwyr a Staff HESA

- **Disgrifiad:** Canran y modiwlau dysgu o fewn rhaglenni addysg uwch sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol a gyflwynir yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Gymraeg, a nodwyd drwy'r maes data MODLANGID (neu PGRLANGID ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig).
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Medr neu Lywodraeth Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Cam Gweithredu 23

## Dangosydd Perfformiad Allweddol 39. Cyfran y myfyrwyr mewn addysg uwch sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol sy'n ymgymryd â modiwlau a gyflwynir yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Gymraeg, yn ôl trothwy credyd

- **Ffynhonnell:** Cofnod Myfyrwyr a Staff HESA
- **Disgrifiad:** Canran y myfyrwyr mewn rhaglenni addysg uwch sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol a ymgymerodd â modiwlau a gyflwynwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd, a nodwyd drwy'r maes data MODLANGID (neu PGRLANGID ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig). Dylid cyflwyno'r dangosydd gan ddefnyddio trothwyon yn seiliedig ar nifer y credydau sydd ynghlwm wrth y modiwlau hyn, megis 5+ credyd a 40+ credyd.[6]
- **Argaeledd data:** Ddim ar gael
- **Darparwr data (os nad yw ar gael i'r cyhoedd):** Medr neu Lywodraeth Cymru
- **Dolen i gamau gweithredu Mwy na geiriau:** Thema 2, Camau Gweithredu 21 a 22

[6] Gweler Troednodyn 3.

# 5. Cyfyngiadau'r dirwedd ddata a gwelliannau a argymhellir

Mae'r fframwaith dangosyddion a gyflwynwyd yn y bennod flaenorol wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar ffynonellau data presennol a nodwyd ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Er bod y dull hwn yn dangos i ba raddau y gall data sydd ar gael gefnogi monitro cynnydd tuag at amcanion Mwy na geiriau, mae hefyd yn tynnu sylw at nifer o fylchau a chyfyngiadau pwysig yn y sylfaen dystiolaeth gyfredol.

Mae'r bennod hon yn nodi'r bylchau a'r cyfyngiadau allweddol hyn ac yn cyflwyno cyfres o welliannau posibl i fynd i'r afael â nhw. Bwriad y rhain yw cefnogi datblygiad sylfaen dystiolaeth fwy cydlynol a chadarn.

Mae'r bylchau a nodwyd yn amrywio o ran eu natur a'u cwmpas. Mewn rhai achosion, maent yn ymwneud â chyfyngiadau data penodol y gellir mynd i'r afael â nhw drwy welliannau wedi'u targedu i arferion casglu neu adrodd data presennol. Mewn eraill, maent yn adlewyrchu heriau strwythurol ehangach, lle mae gwelliannau posibl yn fwy archwiliadol eu natur ac mae angen ystyriaeth a chydlynu pellach arnynt ar draws y sector.

Er bod y bennod hon yn cyflwyno set gynhwysfawr o welliannau posibl, gyda'r nod o gwmpasu'r ystod o fylchau a chyfyngiadau a nodwyd, mae'n bwysig nodi nad yw'r rhain yn gyfystyr â chynllun gweithredu sydd wedi'i bennu a'i flaenoriaethu'n llawn. Cyflwynir yr argymhellion ar y lefel o fanylder a ganiateir gan ganfyddiadau'r ymchwil hon, gyda'r nod o nodi meysydd lle gellid cryfhau'r sail dystiolaeth. Bydd angen gwaith pellach gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid y sector i flaenoriaethu'r gwelliannau hyn, pennu'r dulliau mwyaf priodol o'u gweithredu, ac egluro rolau, cyfrifoldebau ac amserlenni.

Dylid cynnal trafodaethau yn y dyfodol ar gryfhau'r sail dystiolaeth mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg. Fel rheoleiddiwr, mae gan Gomisiynydd y Gymraeg bwerau penodol i ofyn am wybodaeth sy'n berthnasol i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Ar gyfer byrddau iechyd, mae Safon 121 yn ei gwneud yn ofynnol darparu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â chydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisi neu'r safonau gweithredol ar gais. Mae safon debyg ar gyfer awdurdodau lleol hefyd yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1). Mae hyn yn darparu ysgogiad statudol pwysig a mecanwaith posibl i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd.

Er mwyn cysondeb, mae'r bylchau a'r gwelliannau cysylltiedig a gyflwynir yn yr adrannau canlynol wedi'u trefnu ar draws yr un meysydd thematig â'r fframwaith dangosyddion yn y bennod flaenorol.

## 5.1. Y Cynnig Rhagweithiol a chyflenwi gwasanaethau dwyieithog

### 5.1.1. Diffyg asesu strwythuredig o'r Cynnig Rhagweithiol mewn arolygiadau gofal iechyd

Mae'r Cynnig Rhagweithiol yn elfen ganolog o’r ddarpariaeth Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gan adlewyrchu'r egwyddor y dylid cynnig gwasanaethau'n rhagweithiol yn y Gymraeg heb i unigolion orfod gofyn amdanynt. Fodd bynnag, mae casglu tystiolaeth gadarn a chymharol ar gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol yn hanfodol heriol, gan ei fod yn ymwneud â sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu'n ymarferol, gan gynnwys rhyngweithiadau staff ac arferion sefydliadol, yn hytrach na data gweinyddol y gellir ei fesur yn hawdd.

Yn y cyd-destun hwn, mae prosesau arolygu yn ffynhonnell hynod werthfawr o fewnwelediad i gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol. Drwy asesu ar y safle, mae arolygwyr yn gallu arsylwi ar ddarpariaeth gwasanaethau, adolygu arferion, a chasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a staff, gan gynnig lefel o ddyfnder a dealltwriaeth gyd-destunol nad yw ar gael drwy gasglu data arferol.

O fewn gofal cymdeithasol, cefnogir hyn gan ddull strwythuredig: mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn defnyddio fframwaith safonol i asesu'r Cynnig Rhagweithiol ac yn adrodd ar ganfyddiadau gan ddefnyddio categorïau cyson (er enghraifft, a yw safonau'n cael eu bodloni, a ydynt cael eu gweithio tuag atynt, neu a ydynt heb eu bodloni). Mewn cyferbyniad, o fewn arolygiadau gofal iechyd, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn adrodd ar y ddarpariaeth Gymraeg yn bennaf drwy sylwebaeth draethiadol. Er bod y mewnwelediadau ansoddol hyn yn fanwl ac yn werthfawr, ac yn aml yn cael eu defnyddio i lywio camau gwella ar gyfer lleoliadau unigol, mae absenoldeb fframwaith asesu ac adrodd safonol yn golygu nad oes modd cymharu canfyddiadau'n rhwydd ar draws lleoliadau na'u crynhoi i gefnogi’r broses o fonitro’r cynnydd a wnaed tuag at y Cynnig Rhagweithiol ar lefel y system.

**Gwelliant a Argymhellir 1:** Cyflwyno dull strwythuredig a safonol o asesu'r Cynnig Rhagweithiol o fewn arolygiadau gofal iechyd, wedi'i alinio lle bo'n briodol â fframweithiau presennol a ddefnyddir mewn gofal cymdeithasol. Gallai hyn gynnwys defnyddio categorïau asesu wedi'u diffinio'n glir ac adrodd yn systematig ar ganlyniadau, gan alluogi cymharu canfyddiadau ar draws sefydliadau a'u crynhoi i gefnogi’r broses o fonitro cynnydd.

### 5.1.2. Amrywiad yn y defnydd o Arolwg Profiad y Bobl mewn gofal iechyd a diffyg dull cymharol mewn gofal cymdeithasol

Mae Arolwg Profiad y Bobl a ddefnyddir ar draws GIG Cymru yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth, gan ei fod yn casglu a yw defnyddwyr gwasanaethau'n nodi ei bod yn well ganddynt gyfathrebu yn y Gymraeg ac a ydynt yn nodi eu bod yn gallu gwneud hynny. Mae hyn yn ei gwneud yn ffynhonnell allweddol ar gyfer deall y galw am wasanaethau Cymraeg a'r graddau y mae'r galw hwn yn cael ei ddiwallu yn ymarferol.

Fodd bynnag, mae amrywiad ar hyn o bryd yn y ffordd y mae'r arolygon hyn yn cael eu lledaenu ar draws byrddau iechyd a lleoliadau. Gall y dulliau a ddefnyddir i ddosbarthu a chasglu ymatebion i'r arolwg fod yn wahanol (er enghraifft, drwy wahoddiadau neges destun ar ôl apwyntiad, dulliau samplu, neu ddefnyddio codau QR mewn lleoliadau clinigol). Mae'r amrywiad hwn yn lleihau cymaroldeb ar draws sefydliadau a gall gyfyngu ar y graddau y gellir crynhoi canfyddiadau i ddarparu darlun cenedlaethol cyson.

**Gwelliant a Argymhellir 2:** Hyrwyddo mwy o gysondeb wrth ddefnyddio Arolwg Profiad y Bobl ar draws GIG Cymru – gan gynnwys mewn ysbytai a lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol – er mwyn gwella cymaroldeb a chefnogi’r broses o gydgrynhoi canlyniadau’n fwy cadarn ar lefel genedlaethol.

Yn ogystal, ar hyn o bryd nid oes dull cyfatebol, safonol o gofnodi profiad defnyddwyr gwasanaethau mewn gofal cymdeithasol ledled Cymru. Mae hyn yn cynrychioli bwlch allweddol yn y sylfaen dystiolaeth, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd deall y galw am wasanaethau Cymraeg a'r ddarpariaeth ohonynt ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan.

**Gwelliant a Argymhellir 3:** Archwilio dichonoldeb datblygu dull cyson, ar draws y sector, o gasglu profiad defnyddwyr gwasanaethau mewn gofal cymdeithasol, gan gynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â dewis iaith a'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg.

### 5.1.3. Bwlch yn y data ar gyflawni ceisiadau am ddefnyddio’r Gymraeg yng ngwasanaeth 111 y GIG

Mae data o wasanaeth 111 y GIG a gyhoeddwyd ar StatsCymru yn cynnwys nifer y galwadau lle mae'r galwr yn nodi ei fod yn well ganddo gynnal y rhyngweithio yn y Gymraeg. Mae hyn yn darparu dangosydd gwerthfawr o'r galw am wasanaethau Cymraeg o fewn gofal brys dros y ffôn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddata wedi’i gasglu na’i adrodd ynghylch a ymdrinnir â’r galwadau hyn yn y pen draw yn y Gymraeg. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i asesu i ba raddau y mae'r galw hwn yn cael ei fodloni'n ymarferol ac yn golygu nad oes modd defnyddio'r data hwn i fonitro darpariaeth gwasanaethau dwyieithog o fewn y gwasanaeth 111.

**Gwelliant a Argymhellir 4:** Archwilio dichonoldeb ymestyn casglu data ac adrodd o fewn system 111 y GIG i ganfod a ymdrinnir â galwadau lle gofynnir am y Gymraeg yn y Gymraeg wedi hynny, gan weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg fel y rheoleiddiwr perthnasol i ystyried yr opsiynau a'r goblygiadau.

## 5.2. Galw am wasanaethau yn y Gymraeg

### 5.2.1. Cofnodi iaith defnyddwyr gwasanaethau yn anghyson mewn gofal iechyd

Mae cofnodi iaith claf yn gywir ac yn gyson yn elfen allweddol o ddeall y galw am wasanaethau Cymraeg ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a chefnogi darpariaeth ddwyieithog. Er bod systemau gweinyddu cleifion digidol a ddefnyddir ar draws GIG Cymru

fel arfer yn cynnwys meysydd i gofnodi'r dewis iaith, mae'r defnydd ohonynt wedi'i rannu'n dameidiog, ac nid yw eu defnydd ymarferol yn systematig eto. Mae rhai rhanddeiliaid hefyd wedi mynegi pryder bod y defnydd o'r term “dewis” iaith yn awgrymu bod darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn “ddewis” yn hytrach nag yn hawl gyfreithiol.

Mae arferion cofnodi yn amrywio ar draws sefydliadau a lleoliadau, gan adlewyrchu gwahaniaethau mewn llif gwaith a blaenoriaethau lleol. O ganlyniad, mae data ar iaith unigolyn yn anghyflawn ac nid yw'n cael ei gasglu'n gyson. Yn ogystal, nid yw’r data hwn yn cael ei gydgrynhoi na’i adrodd fel mater o drefn ar y lefel leol na’r lefel genedlaethol ar hyn o bryd. Mae hyn yn atal datblygiad darlun cydlynol a chynhwysfawr o iaith defnyddwyr gwasanaethau ar draws gofal iechyd. Os nad oes systemau priodol ar waith i gofnodi dewis neu anghenion iaith unigolyn, nid oes modd mesur y galw yn ddibynadwy. Yn ogystal, nid yw cofnod o ddewis iaith bob amser yn adlewyrchu anghenion unigolion ar draws gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, efallai y bydd yn well gan unigolyn siarad Cymraeg wrth gael mynediad at wasanaethau, ond cael gwybodaeth ysgrifenedig yn y Saesneg ac yn y Gymraeg (ac i'r gwrthwyneb).

**Gwelliant a Argymhellir 5:** Hyrwyddo cofnodi iaith unigolyn yn fwy cyson ar draws gwasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys mewn ysbytai ac mewn gofal sylfaenol a chymunedol. Dylai hyn gynnwys disgwyliadau neu ganllawiau cliriach ynghylch pryd a sut y dylid cofnodi iaith unigolyn yng nghofnodion cleifion. Mewn ymarfer cyffredinol, mae cyflwyno EMIS yn genedlaethol yn rhoi cyfle penodol i gefnogi cofnodi mwy cyson, yn enwedig o ystyried mai meddygfeydd teulu yw'r pwynt mynediad cyntaf yn aml at wasanaethau gofal iechyd.

Bydd y datblygiad arfaethedig o safonau data newydd ar gyfer y Gymraeg (a gefnogir ar hyn o bryd gan Fyrddau Safonau Gwybodaeth Cymru) hefyd yn helpu i hyrwyddo cysondeb ar draws systemau iechyd a gofal cymdeithasol o ran sut mae data ar iaith unigolyn yn cael ei gofnodi. Yn benodol, mae angen gwaith pellach i archwilio’r ffordd orau y gellir cofnodi data ar iaith unigolyn, ac a ddylai hyn ganolbwyntio ar yr iaith sy’n well gan yr unigolyn, dewis iaith yr unigolyn, neu allu’r unigolyn i siarad a darllen Cymraeg.

**Gwelliant a Argymhellir 6:** Yn amodol ar welliannau yng nghysondeb a chyflawnrwydd cofnodi, ystyried sefydlu mecanweithiau ar gyfer crynhoi ac adrodd data ar iaith yn rheolaidd. Dylai hyn gynnwys (i) cyfran y cleifion sydd ag iaith neu ddewis iaith wedi'i gofnodi, a (ii) cyfran y cleifion sy’n gallu siarad Cymraeg, neu fod y Gymraeg yn ddewis iaith iddynt.

**Gwelliant a Argymhellir 7:** Archwilio dichonoldeb galluogi cleifion i hunan-adrodd yr iaith maen nhw'n ei defnyddio – er enghraifft, trwy lwyfannau digidol fel ap GIG Cymru – gan ganiatáu i gleifion gofnodi a diweddaru'r wybodaeth hon wrth leihau'r baich gweinyddol ar staff gofal iechyd.

### 5.2.2. Cysondeb cyfyngedig mewn tystiolaeth o arolygon lefel y boblogaeth

Mae cofnodi iaith unigolyn drwy systemau gweinyddu cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn parhau i fod y ffordd fwyaf uniongyrchol a defnyddiol yn weithredol o ddeall anghenion iaith ar lefel y gwasanaeth. Fodd bynnag, gall arolygon poblogaeth ar raddfa fawr ddarparu ffynhonnell dystiolaeth ategol werthfawr ar yr iaith y byddai angen i siaradwyr Cymraeg gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynddi, neu y byddent yn dewis cael mynediad ynddi.

Fel y nodwyd yn Adran 3.4.1, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol mewn rhai blynyddoedd wrth gynnal yr arolwg. Mae'r rhain wedi ymdrin â phynciau megis a oedd ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'u meddygfa, a gynigiwyd dewis iaith iddynt, a'u dewis iaith ar gyfer cyfathrebu â staff iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn gyson ar draws blynyddoedd yr arolwg, ac mae eu geiriad a'u ffocws wedi amrywio. O ganlyniad, nid oes modd defnyddio'r data ar hyn o bryd i fonitro newidiadau dros amser mewn ffordd gyson.

Er y gall fod cyfyngiadau ar gwestiynau arolwg sy'n dibynnu ar ymatebwyr yn cofio rhyngweithio blaenorol penodol, gallai arolygon ar lefel y boblogaeth fod yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer deall yr iaith y byddai angen i siaradwyr Cymraeg gael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwyddi neu y byddent yn dewis cael y gwasanaethau hyn drwyddi.

**Gwelliant a Argymhellir 8:** Archwilio dichonoldeb cynnwys cwestiwn, neu set o gwestiynau, yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ar yr iaith y byddai angen i ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg gael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwyddi, neu'n dewis cael y gwasanaethau hyn drwyddi. Dylid cynnwys cwestiynau'n rheolaidd, naill ai'n flynyddol neu ar gylch cyfnodol penodol, gan ddefnyddio geiriad cyson i ganiatáu i newidiadau gael eu monitro dros amser.

## 5.3. Gallu'r gweithlu yn y Gymraeg

### 5.3.1. Dibynadwyedd data hunangofnodedig ar allu yn y Gymraeg

Mae data cywir ar allu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y Gymraeg yn hanfodol er mwyn deall y capasiti presennol a chefnogi gwaith cynllunio'r gweithlu. Fel arfer, caiff yr wybodaeth hon ei chasglu drwy fesurau hunangofnodedig o fewn systemau'r gweithlu (e.e. Cofnod Staff Electronig y GIG neu gofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru).

Mae tystiolaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn awgrymu nad yw gallu iaith hunangofnodedig bob amser yn adlewyrchu sgiliau gwirioneddol unigolion yn gywir. Gall hyn fod oherwydd, er enghraifft, gwahaniaethau mewn hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau proffesiynol, gan arwain rhai unigolion i dan-adrodd eu gallu. Yn ogystal, mae gallu yn y Gymraeg fel arfer yn cael ei gofnodi ar raddfa 0 i 5 (o 'dim sgiliau' i 'hyfedr'), ac efallai na fydd hynny'n cael ei ddehongli'n gyson ar draws unigolion neu

sefydliadau. Gyda'i gilydd, gall y ffactorau hyn effeithio ar ddibynadwyedd a chysondeb y data.

Mae'r cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, sy'n cael ei ddatblygu o dan Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, yn gyfle i wella'r ffordd y caiff gallu yn y Gymraeg ei gofnodi ar draws systemau'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y cod yn seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR) a'i fwriad yw sefydlu dull safonol o ddisgrifio hyfedredd yn y Gymraeg.

Atgyfnerthir hyn ymhellach gan adolygiad arfaethedig o’r safonau Cymraeg perthnasol, a fydd yn ystyried sut y gellir diweddaru gofynion statudol a rheoleiddiol sy’n ymwneud â sgiliau’r gweithlu, recriwtio ac adrodd i gyd-fynd â’r cod. Gyda'i gilydd, mae hyn yn creu cyfle i sefydlu fframwaith mwy cyson a chydlynol ar gyfer mesur, categoreiddio ac adrodd ar allu yn y Gymraeg ar draws y gweithlu, gan gefnogi cydymffurfedd â safonau a chynllunio gweithlu mwy strategol.

**Gwelliant a Argymhellir 9:** Ystyried cysoni'r categorïau a ddefnyddir i gofnodi gallu yn y Gymraeg ar draws systemau'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol drwy eu halinio â'r cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. Gallai defnyddio fframwaith cyffredin, wedi'i gefnogi gan ddisgrifyddion clir a chyson ar gyfer pob lefel o hyfedredd, helpu i wella cysondeb, cymaroldeb a defnyddioldeb data ar iaith y gweithlu ar draws addysg, hyfforddiant a chynllunio'r gweithlu.

### 5.3.2. Methiant i wella sgiliau Cymraeg yn rheolaidd

Nid yw sgiliau Cymraeg yn sefydlog a gallant newid dros amser, trwy ddysgu a thrwy golli rhuglder os na ddefnyddir sgiliau'n rheolaidd. Yn ymarferol, mae systemau'r gweithlu fel Cofnod Staff Electronig y GIG yn caniatáu i'r gallu i siarad Cymraeg gael ei ddiweddaru dros amser, a gellir gweld newidiadau hanesyddol i'r cofnodion hyn.

Mae tystiolaeth gan y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r ymchwil hon yn awgrymu bod newidiadau yn y gallu iaith a gofnodwyd yn digwydd, gan gynnwys achosion pan fo unigolion yn nodi gostyngiad yn eu hyfedredd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes gofyniad cyson na systematig i staff adolygu a diweddaru eu gallu cofnodedig yn y Gymraeg yn rheolaidd. O ganlyniad, efallai na fydd data'r gweithlu bob amser yn adlewyrchu lefelau cyfredol o allu yn y Gymraeg, gan gyfyngu ar ba mor ddefnyddiol ydynt ar gyfer cynllunio'r gweithlu.

**Gwelliant a Argymhellir 10:** Ystyried cyflwyno dull systematig o ddiweddaru data ar allu yn y Gymraeg y gweithlu – er enghraifft, drwy annog neu fynnu bod staff yn adolygu a chadarnhau eu hyfedredd ieithyddol cofnodedig yn rheolaidd (er enghraifft, yn flynyddol neu fel rhan o brosesau gwerthuso). Gallai hyn helpu i sicrhau bod data’r gweithlu yn adlewyrchu lefelau sgiliau cyfredol yn fwy cywir wrth barhau i fod yn gymesur o ran y baich gweinyddol.

Dylid archwilio hyn fel mater rheoleiddio, gan gydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg fel y rheoleiddiwr priodol i ystyried sut y gallai dull o'r fath gefnogi cydymffurfedd â’r safonau Cymraeg perthnasol, a’r gwaith o’u monitro.

### 5.3.3. Gwelededd cyfyngedig o sgiliau Cymraeg cynnar

Mewn systemau gweithlu, mae graddfeydd gallu yn y Gymraeg fel arfer yn dechrau ar lefel mynediad sy'n tybio lefel ofynnol o gymhwysedd swyddogaethol (sy'n cyfateb i A1 yn ôl CEFR). Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn yn cofnodi sgiliau iaith cynnar yn llawn. Efallai y bydd staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant rhagarweiniol neu ‘er cwrteisi’ yn y Gymraeg yn gallu defnyddio ymadroddion neu gyfarchion syml yn ymarferol, ond efallai na fyddant yn cyrraedd y trothwy ar gyfer hyfedredd lefel mynediad. O ganlyniad, mae'r unigolion hyn yn aml yn cael eu cofnodi fel rhai ‘heb sgiliau’, a all danddatgan cynnydd cynnar a chyfyngu ar welededd gallu Cymraeg sy'n dod i'r amlwg yn y gweithlu.

**Gwelliant a Argymhellir 11:** Ymgorffori categori lefel gyflwyniadol neu gyn-fynediad sydd wedi'i ddiffinio'n glir mewn graddfeydd gallu yn y Gymraeg o fewn systemau'r gweithlu. Byddai hyn yn caniatáu i sgiliau cynnar gael eu cofnodi'n fwy cywir a chefnogi dealltwriaeth fwy cyflawn o ddatblygiad y Gymraeg yn y gweithlu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Mae datblygiad y cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, yn seiliedig ar CEFR ac yn ofynnol o dan Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, yn rhoi cyfle i wneud hyn.

Dylid ystyried hyn yng nghyd-destun yr adolygiad arfaethedig o safonau Cymraeg perthnasol, er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau’n parhau i fod yn gydnaws â gofynion statudol sy’n ymwneud â sgiliau’r gweithlu, recriwtio ac adrodd, a bod dull cyson a chydlynol yn cael ei gynnal ar draws fframweithiau rheoleiddio a gweithlu.

### 5.3.4. Diffyg tystiolaeth ar ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle

Er bod data ar allu’r gweithlu yn y Gymraeg yn gymharol sefydledig, ychydig o dystiolaeth sydd ar gael ynghylch sut mae’r Gymraeg yn cael ei defnyddio’n ymarferol yn y gweithle. Gall data presennol ddangos a yw staff yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ond nid yw'n rhoi llawer o ddealltwriaeth o ran pa mor aml y defnyddir y Gymraeg, ym mha gyd-destunau y’i defnyddir, neu gyda pha lefel o hyder.

Mae cofnodi defnydd iaith yn y byd go iawn yn hanfodol heriol ac nid oes modd mesur hyn drwy systemau data gweinyddol na gweithlu confensiynol. O ganlyniad, mae hyn yn cynrychioli bwlch yn y sylfaen dystiolaeth, yn enwedig o ran deall sut mae gallu'r gweithlu yn trosi'n ddarpariaeth wirioneddol o wasanaethau Cymraeg.

Datblygiad addawol yn y maes hwn yw'r ap Check-in-Cymraeg, sy'n cael ei ddatblygu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r ap wedi'i gynllunio i gasglu gwybodaeth am amlder, cyd-destun a hyder defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau byd go iawn, yn seiliedig ar fewnbwn gan ddefnyddwyr. Wrth i'r offeryn gael ei dreialu a'i gyflwyno'n ehangach, gallai ddarparu ffynhonnell dystiolaeth werthfawr newydd ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Gwelliant a Argymhellir 12:** Hyrwyddo’r defnydd o offer fel yr ap Check-in-Cymraeg ymhlith staff iechyd a gofal cymdeithasol, fel ffordd o gryfhau’r sail dystiolaeth ar ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle.

Mae llinyn gwaith cysylltiedig yn cael ei ddatblygu trwy rôl Comisiynydd y Gymraeg wrth gryfhau defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle trwy fframwaith safonau'r Gymraeg a gweithgarwch cyd-reoleiddio ehangach. Fel rhan o hyn, mae cynllun peilot yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gyda nifer o sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg i archwilio dulliau o fesur defnydd o'r Gymraeg yn ymarferol yn y gweithle. Nod y gwaith hwn yw datblygu dull mwy cyson a chadarn o gofnodi defnydd iaith yn y byd go iawn a allai ategu data presennol ar allu ieithyddol y gweithlu a chefnogi gwell goruchwyliaeth reoleiddiol a dulliau cynllunio’r gweithlu.

**Gwelliant a Argymhellir 13:** Gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i adeiladu ar y gwaith peilot presennol sy'n archwilio sut y gellir mesur defnydd o’r Gymraeg yn y gweithle, gyda'r nod o ddatblygu dull cyson o gofnodi ac adrodd ar ddefnydd iaith yn ymarferol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

### 5.3.5. Diffyg data cyson ar ofynion y Gymraeg wrth recriwtio ym maes gofal cymdeithasol

Ym maes gofal iechyd, mae data strwythuredig ar gael ar ofynion o ran y Gymraeg wrth lenwi swyddi gwag. Mae swyddi gwag ar draws GIG Cymru wedi'u categoreiddio'n systematig (e.e. Cymraeg yn hanfodol, Cymraeg yn ddymunol, Cymraeg i'w dysgu, neu Gymraeg ddim yn ofynnol), gan ddarparu ffynhonnell gyson o wybodaeth am y galw am sgiliau Cymraeg ac adlewyrchu bwriadau o ran cynllunio'r gweithlu ar adeg recriwtio.

Fodd bynnag, nid oes data cymharol, wedi'i gydgrynhoi'n systematig, ar ofynion y Gymraeg wrth recriwtio ym maes gofal cymdeithasol. Mae hyn yn adlewyrchu’n rhannol y gwahaniaethau strwythurol rhwng y ddau sector: er bod y GIG yn gweithredu fel cyflogwr cymharol ganolog gyda systemau recriwtio safonol, mae gweithgarwch recriwtio ym maes gofal cymdeithasol yn fwy dameidiog, gan gynnwys ystod eang o awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol. Serch hynny, mae diffyg data cyson ar ofynion o ran y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn gyfyngiad ar gyfer monitro ar lefel y system.

**Gwelliant a Argymhellir 14:** Archwilio dulliau posibl o gasglu a chydgrynhoi gwybodaeth yn fwy cyson am ofynion o ran y Gymraeg mewn swyddi gwag ar draws gofal cymdeithasol, gan ystyried strwythur dameidiog y sector.

### 5.3.6. Heriau wrth gysylltu gallu Cymraeg y gweithlu â grwpiau â blaenoriaeth Mwy na geiriau

Mae’r strategaeth Mwy na geiriau yn nodi nifer o grwpiau â blaenoriaeth y mae mynediad at wasanaethau Cymraeg yn arbennig o bwysig iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu, defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, pobl sy'n byw gyda dementia, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau strôc, a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith. Byddai deall dosbarthiad sgiliau Cymraeg ymhlith staff sy'n gweithio gyda'r grwpiau hyn yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar a yw gallu’r gweithlu yn cyd-fynd â'r meysydd lle mae'r angen mwyaf.

Mewn egwyddor, gall systemau data gweithlu fel Cofnod Staff Electronig y GIG gefnogi dadansoddiad yn ôl maes gwasanaeth, a allai alluogi archwilio gallu staff yn y Gymraeg sy'n gweithio mewn gwasanaethau penodol. Fodd bynnag, nid yw cysylltu'r wybodaeth hon â grwpiau â blaenoriaeth Mwy na geiriau bob amser yn syml.

Mae'r prif her nid yn unig yn ymwneud â strwythurau data'r gweithlu ond hefyd yn y ffordd y diffinnir grwpiau â blaenoriaeth. Er bod rhai grwpiau'n cyd-fynd yn gymharol dda â gwasanaethau penodol (e.e. gwasanaethau strôc), mae eraill yn ehangach ac yn cwmpasu sawl maes gwasanaeth. Er enghraifft, mae pobl hŷn a phlant a phobl ifanc yn cael eu gwasanaethu ar draws ystod eang o wasanaethau, gan ei gwneud hi'n anodd mapio data'r gweithlu i'r grwpiau hyn mewn ffordd gyson ac ystyrlon. O ganlyniad, nid oes dull clir na systematig ar hyn o bryd o asesu gallu'r gweithlu Cymraeg mewn perthynas â'r grwpiau â blaenoriaeth hyn.

**Gwelliant a Argymhellir 15:** Gan adeiladu ar y gwaith a wnaed gan y Fforwm Iechyd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws lleoliadau clinigol (a'r gwaith y mae'r byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau wedi'i wneud hyd yn hyn i ddarparu data sylfaenol ar sgiliau Cymraeg staff sy'n gweithio ar draws lleoliadau clinigol), parhau i archwilio dulliau o gysylltu data ar y gweithlu â grwpiau â blaenoriaeth Mwy na geiriau.Ochr yn ochr â hynny, ystyried a allai eglurhad neu fireinio pellach o ddiffiniadau grwpiau â blaenoriaeth gefnogi dadansoddiad mwy cyson a haws ei ddefnyddio, yn enwedig ar gyfer grwpiau ehangach sy'n cwmpasu sawl maes gwasanaeth.

### 5.3.7. Cyfraddau cwblhau data ar allu yn y Gymraeg isel yn System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru

Mae System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru yn casglu gwybodaeth am allu yn y Gymraeg meddygon teulu a staff ehangach mewn practisau, a disgwylir iddi gael ei hymestyn i bractisau deintyddol wrth iddi gael ei chyflwyno ymhellach. Mae hyn yn ei gwneud yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am allu yn y Gymraeg o fewn gofal sylfaenol.

Fodd bynnag, mae cyfraddau cwblhau ar gyfer meysydd gallu yn y Gymraeg yn gymharol isel ar hyn o bryd. Er enghraifft, yn seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael ar StatsCymru, dim ond ar gyfer tua 54% o feddygon teulu a staff ymarfer ehangach y mae gallu yn y Gymraeg wedi'i gofnodi, gyda'r 46% sy'n weddill wedi'u cofnodi fel ‘heb eu nodi’. Mae hyn yn cyfyngu ar gynrychioldeb a dibynadwyedd yr ystadegau sy'n deillio o hyn ac yn cyfyngu ar eu defnydd at ddibenion cynllunio a monitro'r gweithlu.

**Gwelliant a Argymhellir 16:** Archwilio dulliau ymarferol o gynyddu cyfraddau cwblhau ar gyfer meysydd gallu yn y Gymraeg o fewn System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru, er mwyn gwella cyfraddau cwblhau a dibynadwyedd data'r gweithlu.

Mae dulliau nodweddiadol o wella cyfraddau cwblhau mewn cyd-destunau tebyg yn cynnwys:

- cyflwyno disgwyliadau neu ganllawiau cliriach i ddarparwyr ar gofnodi gallu yn y Gymraeg, gan gynnwys pryd a sut y dylid cwblhau meysydd

- ymgorffori awgrymiadau neu wiriadau dilysu o fewn y system (e.e. atgoffa pan adawir meysydd yn wag) i annog unigolion i gwblhau meysydd ar adeg mewnbynnu data
- cysylltu'r broses o gwblhau â phrosesau adrodd neu sicrwydd presennol fel bod cofnodi gallu yn y Gymraeg yn dod yn rhan o ddisgwyliadau ansawdd data arferol
- alinio gweithgarwch casglu data â phrosesau eraill y gweithlu, fel cynefino neu adolygiadau cofnodion staff cyfnodol, er mwyn sicrhau bod meysydd yn cael eu cwblhau a'u cadw'n gyfredol

### 5.3.8. Bylchau yn y data ar weithgarwch dysgu'r Gymraeg yn y gweithlu

Mae data o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am staff iechyd a gofal cymdeithasol sy'n dysgu neu'n gwella eu Cymraeg yn weithredol. Fodd bynnag, nid yw'r holl hyfforddiant Cymraeg a wneir gan staff iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae rhai sefydliadau'n darparu neu'n comisiynu eu hyfforddiant eu hunain, nad yw wedi'i gynnwys yn nata'r ganolfan.

O ganlyniad, efallai na fydd data presennol yn rhoi darlun cyflawn o weithgarwch dysgu Cymraeg ar draws y gweithlu. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i ddeall yn llawn raddfa a dosbarthiad buddsoddiad mewn sgiliau Cymraeg, yn ogystal â phatrymau cyfranogiad a dilyniant ar draws y sector.

**Gwelliant a Argymhellir 17:** Ystyried cyflwyno gofynion adrodd mwy cyson ar gyfer byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar hyfforddiant Cymraeg a ddarperir y tu allan i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Lle bo'n ymarferol, gallai hyn gynnwys gwybodaeth am gyfranogiad a chyfraddau cwblhau, yn ogystal â lefel y dysgu Cymraeg a wneir.

### 5.3.9. Diffyg llif data cydlynol rhwng addysg a'r gweithlu

Mae'r dirwedd ddata yn cynnwys sawl ffynhonnell sy'n cofnodi gwahanol gamau o'r llif data ar gyfer y gweithlu Cymraeg. Mae setiau data addysg fel Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a Chofnod Myfyrwyr HESA yn darparu gwybodaeth am allu yn y Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ymhlith dysgwyr a myfyrwyr. Gall data o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac o bosibl gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol, roi cipolwg ar weithgarwch dysgu'r Gymraeg a wneir gan y gweithlu presennol. Mae setiau data'r gweithlu fel y Cofnod Staff Electronig, System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru, a chofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru yn cofnodi gallu staff yn y Gymraeg sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Fodd bynnag, mae'r ffynonellau hyn yn cael eu hystyried ar wahân i raddau helaeth ar hyn o bryd. O ganlyniad, nid oes fframwaith cydlynol ar gyfer deall sut mae addysg a hyfforddiant Cymraeg yn arwain at allu Cymraeg yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol dros amser. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i asesu cyfraniad addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog dros

yr hirdymor, yn ogystal â dysgu'r gweithlu, at argaeledd staff sy'n gallu darparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

**Gwelliant a Argymhellir 18:** Archwilio dichonoldeb datblygu model llif Cymraeg ar gyfer y gweithlu sy'n dwyn ynghyd y ffynonellau data addysg, hyfforddiant a gweithlu perthnasol a drafodir yn yr adroddiad hwn.Gallai hyn gynnwys data gan Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, HESA, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y Cofnod Staff Electronig, System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, byrddau iechyd, ac awdurdodau lleol. Byddai hyn yn cefnogi gwell dealltwriaeth o sut mae buddsoddi mewn addysg cyfrwng Cymraeg a hyfforddiant Cymraeg yn cyfrannu at allu ieithyddol yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol dros amser.

# 6. Casgliadau

Nod yr ymchwil hon oedd adolygu tirwedd ddata iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru mewn perthynas â’r defnydd o’r Gymraeg a’r ddarpariaeth ohoni, gyda'r nod o gefnogi’r gwaith o fonitro’r cynnydd a wnaed tuag at amcanion cynllun Mwy na geiriau. Yn benodol, mae wedi canolbwyntio ar nodi ffynonellau data presennol, asesu eu gallu i gefnogi’r gwaith o fonitro’r cynnydd a wnaed, datblygu fframwaith dangosyddion ymarferol, ac amlygu bylchau a chyfleoedd allweddol i gryfhau'r dirwedd ddata.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod ystod eang o ddata eisoes yn cael ei chasglu ar draws y sector a allai gefnogi monitro cynnydd. Mae'r data hwn yn cwmpasu sawl maes, gan gynnwys sgiliau'r gweithlu, darparu gwasanaethau, profiad defnyddwyr gwasanaethau, ac addysg a hyfforddiant. Mewn llawer o achosion, mae'r ffynonellau hyn yn darparu sylfaen gref ar gyfer adeiladu dangosyddion cadarn, yn enwedig lle mae data'n cael ei gasglu'n gyson ac ar raddfa fawr, megis cofnodion y gweithlu, datganiadau rheoleiddiol, a setiau data addysg.

Fodd bynnag, mae'r adolygiad hefyd yn tynnu sylw at gyfyngiadau pwysig yn y dirwedd ddata gyfredol. Mae'r rhain yn cynnwys bylchau yn y sylw, anghysondebau yn y ffordd y caiff data ei gofnodi ar draws sefydliadau a lleoliadau, ac argaeledd cyfyngedig data ar ffurf sy'n cefnogi gweithgarwch cydgrynhoi a monitro ar lefel system. Yn ogystal, mae gwahaniaethau rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol o ran strwythur ac aeddfedrwydd data yn cyflwyno heriau o ran datblygu sylfaen dystiolaeth gydlynol ar draws y ddau sector.

Mae'r fframwaith dangosyddion a ddatblygwyd fel rhan o'r ymchwil hon yn dangos ei bod hi'n bosibl llunio set ystyrlon o ddangosyddion gan ddefnyddio ffynonellau data sy’n bodoli eisoes. Drwy ganolbwyntio ar ddata sydd eisoes wedi’i gasglu, mae'r fframwaith yn darparu dull pragmatig o fonitro cynnydd heb gyflwyno beichiau casglu data ychwanegol ar randdeiliaid yn y sector. Ar yr un pryd, mae'r asesiad dichonoldeb ar gyfer pob dangosydd yn tynnu sylw at ble y byddai angen prosesu data pellach a rhannu data'n rheolaidd â Llywodraeth Cymru i alluogi gweithredu'r fframwaith.

Mae'r dadansoddiad o fylchau a chyfyngiadau yn awgrymu cyfeiriad clir ar gyfer cryfhau'r sylfaen dystiolaeth dros amser. Mewn llawer o achosion, gellir cyflawni gwelliannau drwy gamau gweithredu cymharol dargedig, megis gwella cysondeb cofnodi data neu wella cyflawnrwydd setiau data presennol. Mewn meysydd eraill, bydd angen mwy o waith archwiliadol i fynd i'r afael â heriau strwythurol, gan gynnwys datblygu dulliau newydd o gofnodi agweddau ar y defnydd o’r Gymraeg nad ydynt yn hawdd eu mesur gan systemau presennol, a gwella cysondeb a’r gallu i gymharu gwybodaeth mewn rhannau mwy datganoledig o'r sector.

Gyda'i gilydd, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr a strwythuredig o'r dirwedd ddata gyfredol, gan ddwyn ynghyd, am y tro cyntaf, y prif ffynonellau data sy'n berthnasol i’r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r fframwaith arfaethedig o ddangosyddion yn cynnig man cychwyn ymarferol ar gyfer olrhain cynnydd, tra bod y bylchau a nodwyd a'r gwelliannau a argymhellwyd yn tynnu sylw at ble y

dylid canolbwyntio ymdrech bellach i gryfhau cadernid a chydlyniant y sylfaen dystiolaeth yn y dyfodol.

Yn y pen draw, bydd gweithredu'r gwaith hwn yn effeithiol yn dibynnu ar gydweithio parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn y sector. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu tymor byr i alluogi’r fframwaith dangosyddion gael ei weithredu a chydweithio tymor hwy i flaenoriaethu, mireinio a bwrw ymlaen â'r gwelliannau a argymhellir. Bydd cryfhau'r dirwedd ddata yn y modd hwn yn hanfodol i sicrhau bod modd asesu cynnydd tuag at amcanion Mwy na geiriau yn ystyrlon, ac i gefnogi polisi a chynllunio mwy gwybodus sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hyrwyddo'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

# 7. Atodiad I: Ffynonellau data o fewn y cwmpas – crynodeb o’r wybodaeth allweddol

## 7.1. Ffynonellau data sy'n berthnasol i ofal iechyd

### 7.1.1. GIG Cymru

#### 7.1.1.1. Cofnod Staff Electronig

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Gweithwyr GIG Cymru |
| **Meysydd data allweddol** | Gallu yn y Gymraeg, ar draws:<br>1. Gwrando/siarad (0 i 5)<br>2. Darllen (0 i 5)<br>3. Ysgrifennu (0 i 5)<br>Graddfa hyfedredd:<br>a. 0 – Dim sgiliau<br>b. 1 – Mynediad<br>c. 2 – Sylfaen<br>d. 3 – Canolradd<br>e. 4 – Uwch<br>f. 5 – Hyfedr |
| **Amlder** | Wedi'i gofnodi yn ystod yr apwyntiad; mae diweddariadau (os o gwbl) yn digwydd yn afreolaidd ac yn amrywio yn ôl sefydliad |
| **Hygyrchedd** | Ddim ar gael yn gyhoeddus |

#### 7.1.1.2. System recriwtio GIG Cymru (Trac/Civica)

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Swyddi gwag unigol GIG Cymru a hysbysebir drwy'r system recriwtio |
| **Meysydd data allweddol** | Categorïau gofynion o ran y Gymraeg o fewn swyddi gwag a hysbysebir:<br>a. Cymraeg yn hanfodol |

| | |
|---|---|
| | b. Cymraeg yn ddymunol<br>c. Cymraeg i'w dysgu ar benodiad<br>d. Nid yw’r Gymraeg yn ofynnol |
| **Amlder** | Casglu parhaus; crynhoir yn flynyddol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer pob sefydliad |
| **Hygyrchedd** | Ddim ar gael yn gyhoeddus |

#### 7.1.1.3. Datganiadau’r Fframwaith Sicrwydd Contractau ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Practisau cyffredinol |
| **Meysydd data allweddol** | Cwestiynau perthnasol:<br>1. A yw'r practis yn darparu gwasanaethau meddygol o dan y contract drwy gyfrwng y Gymraeg? (Ydyw / Nac ydyw)<br>2. A yw'r ffurflen gofrestru newydd yn gofyn i'r claf yn benodol am ei anghenion iaith? (Ydyw / Nac ydyw)<br>3. A yw'r practis yn cofnodi dewis iaith / iaith gyntaf cleifion yn nodiadau'r claf? (Ydyw / Nac ydyw)<br>4. A yw'r practis yn annog staff i ddogfennu dewis iaith y claf ar bob dogfen, gan gynnwys atgyfeiriadau? (Ydyw / Nac ydyw)<br>5. A yw'r practis yn darparu gwybodaeth ddwyieithog sy'n benodol i'r practis i gleifion? (wedi'i rhannu'n arwyddion, posteri, holiadur cleifion newydd, pob un wedi'i recordio; Ydyw / Nac ydyw)<br>6. A yw'r practis yn cynnig fersiwn Gymraeg o unrhyw ddogfen neu ffurflen a ddarperir gan y bwrdd iechyd i gleifion neu'r cyhoedd? (Ydyw / Nac ydyw)<br>7. A yw'r practis yn annog staff sy'n siarad Cymraeg i wisgo bathodyn sy'n nodi eu gallu i siarad Cymraeg? (Ydyw / Nac ydyw)<br>8. A yw'r practis yn annog staff sydd â chyswllt uniongyrchol â chleifion i gael gwybodaeth sylfaenol o'r Gymraeg (e.e. cyfarchion)? (Ydyw / Nac ydyw) |

| | |
|---|---|
| | 9. A yw'r practis yn fodlon caniatáu i aelodau staff ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg? (Ydyw / Nac ydyw) |
| **Amlder** | Blynyddol |
| **Hygyrchedd** | Ddim ar gael yn gyhoeddus |

#### 7.1.1.4. Hunanasesiad o sicrwydd ansawdd ar gyfer practisau deintyddol

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Practisau deintyddol |
| **Meysydd data allweddol** | Cwestiynau perthnasol:<br>1. A all y practis gyfathrebu â chleifion drwy gyfrwng y Gymraeg? (Gall / Na all)<br>2. A oes unrhyw wybodaeth ysgrifenedig ar gael mewn ieithoedd heblaw Saesneg? (Oes / Nac oes)<br>3. Rhowch fanylion os gwelwch yn dda. (Testun rhydd) |
| **Amlder** | Blynyddol |
| **Hygyrchedd** | Ddim ar gael yn gyhoeddus |

#### 7.1.1.5. Cofnod Gofal Nyrsio Cymru

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Cleifion mewnol sy’n oedolion |
| **Meysydd data allweddol** | 1. Dewis iaith (rhestr o ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg)<br>2. Iaith gyntaf (rhestr o ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg) |
| **Amlder** | Cofnodi parhaus |
| **Hygyrchedd** | Ddim ar gael yn gyhoeddus |

#### 7.1.1.6. Arolwg Profiad y Bobl

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Defnyddwyr gwasanaethau’r GIG |
| **Meysydd data allweddol** | 1. Pa iaith fyddai'n well gennych chi gyfathrebu drwyddi? (dewisiadau ymateb): |

| | |
|---|---|
| | a. Saesneg<br>b. Cymraeg<br>c. [11 iaith arall]<br>2. Oeddech chi'n gallu cyfathrebu yn eich dewis iaith?<br>a. Bob amser<br>b. Fel arfer<br>c. Weithiau<br>d. Byth |
| **Amlder** | Gweithgarwch casglu data parhaus |
| **Hygyrchedd** | Ddim ar gael yn gyhoeddus |

#### 7.1.1.7. System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Staff practisau cyffredinol (meddygon teulu cwbl gymwysedig a staff ehangach practisau) |
| **Meysydd data allweddol** | Gallu yn y Gymraeg, ar draws:<br>1. Gwrando/siarad (0 i 5)<br>2. Darllen (0 i 5)<br>3. Ysgrifennu (0 i 5)<br>Graddfa hyfedredd:<br>a. 0 – Dim sgiliau<br>b. 1 – Mynediad<br>c. 2 – Sylfaen<br>d. 3 – Canolradd<br>e. 4 – Uwch<br>f. 5 – Hyfedr |
| **Amlder** | Caiff data ei ddiweddaru bob chwarter; cyhoeddir ystadegau'n flynyddol |

| | |
|---|---|
| **Hygyrchedd** | Data wedi'i gyhoeddi ar StatsCymru fel dwy set ddata ar wahân (meddygon teulu cwbl gymwysedig a staff ehangach practisau) |

#### 7.1.1.8. Data gweithgarwch gwasanaeth 111 y GIG

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Galwadau i wasanaeth 111 y GIG |
| **Meysydd data allweddol** | Nifer y galwadau lle nododd y galwr eu bod yn dymuno cynnal yr alwad yn y Gymraeg |
| **Amlder** | Misol |
| **Hygyrchedd** | Cyhoeddwyd ar StatsCymru |

### 7.1.2. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

#### 7.1.2.1. Arolygon arolygu

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Cleifion, aelodau o'r teulu neu ofalwyr, a staff sy'n cwblhau'r arolwg yn ystod cyfnod arolygu |
| **Meysydd data allweddol** | Ar gyfer cleifion, teuluoedd a gofalwyr:<br>1. Pa un yw eich iaith ddewisol?<br>2. A gynigiwyd cyfle i chi siarad Cymraeg yn weithredol drwy gydol eich taith fel claf?<br>3. Oeddech chi'n teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg yn y lleoliad, waeth a ofynnwyd i chi beth oedd eich dewis iaith ai peidio?<br>4. Oedd gwybodaeth gofal iechyd ar gael i chi yn y Gymraeg?<br>Ar gyfer staff:<br>1. A ydych chi'n siarad Cymraeg?<br>2. A ydych chi'n gwisgo'r bathodyn neu'r laniard 'Iaith Gwaith'?<br>3. A ofynnir i gleifion nodi eu dewis iaith?<br>4. A ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg yn weithredol mewn sgyrsiau bob dydd?<br>5. A ydych chi'n cael y cyfle i gwblhau eich hyfforddiant yn y Gymraeg? |

| | |
|---|---|
| **Amlder** | Data yn cael ei gasglu yn ystod arolygiadau yn unig; mae amlder yn amrywio oherwydd bod arolygiadau fel arfer yn cael eu sbarduno gan wybodaeth ac yn seiliedig ar risg |
| **Hygyrchedd** | Ddim ar gael i'r cyhoedd |

### 7.1.3. Comisiynydd y Gymraeg

#### 7.1.3.1. Holiaduron hunanasesu blynyddol

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Byrddau iechyd ac awdurdodau lleol (noder: mae tystiolaeth awdurdodau lleol yn adlewyrchu'r sefyllfa ar draws y sefydliad ar hyn o bryd ac nid oes modd ei chysylltu â gweithgarwch gofal cymdeithasol penodol; fodd bynnag, gallai Comisiynydd y Gymraeg ofyn am wybodaeth fwy penodol yn y dyfodol pan fo'n berthnasol i'w swyddogaethau rheoleiddio) |
| **Meysydd data allweddol** | Rhestr helaeth o feysydd sy'n adlewyrchu'r holl safonau Cymraeg perthnasol. Ar gyfer pob safon neu grŵp o safonau, mae sefydliadau'n dewis un o bum lefel sicrwydd:<br>a. Sicrwydd uchel<br>b. Sicrwydd canolig<br>c. Sicrwydd isel<br>d. Dim sicrwydd<br>e. Dim dyletswydd i gydymffurfio |
| **Amlder** | Blynyddol |
| **Hygyrchedd** | Ddim ar gael yn gyhoeddus |

#### 7.1.3.2. Adroddiadau cydymffurfio blynyddol ar gyfer safonau'r Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Byrddau iechyd ac awdurdodau lleol (noder: mae tystiolaeth awdurdodau lleol yn adlewyrchu'r sefyllfa ar draws y sefydliad ar hyn o bryd ac nid oes modd ei chysylltu â gweithgarwch gofal cymdeithasol penodol; fodd bynnag, gallai Comisiynydd y Gymraeg ofyn am wybodaeth fwy penodol yn y dyfodol pan fo'n berthnasol i'w swyddogaethau rheoleiddio) |
| **Meysydd data allweddol** | Rhaid i bob adroddiad blynyddol gynnwys gwybodaeth feintiol am y canlynol: |

| | |
|---|---|
| | 1. Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg<br>2. Nifer y staff a gymerodd ran mewn hyfforddiant a gynigiwyd yn y Gymraeg<br>3. Os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs, canran y staff a gymerodd ran yn y fersiwn Gymraeg<br>4. Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn, wedi'u categoreiddio yn ôl gofyniad am y Gymraeg<br>5. Nifer y cwynion a ddaeth i law yn ymwneud â chydymffurfedd â'r safonau gweithredol |
| **Amlder** | Blynyddol |
| **Hygyrchedd** | Adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd a gyhoeddir yn unigol gan fyrddau iechyd ar eu gwefannau; dim fformat safonol na set ddata ganolog |

#### 7.1.3.3. Casglu data sylfaenol Safon 110

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Byrddau iechyd |
| **Meysydd data allweddol** | 1. Nifer a chanran y staff sy'n darparu gwasanaethau clinigol, fel cyfran o'r gweithlu cyfan<br>2. Nifer a chanran y staff clinigol sydd â sgiliau Cymraeg ar Lefel 3 neu uwch<br>3. Dosbarthiad y staff clinigol hyn sy'n siarad Cymraeg ar draws y sefydliad, gyda sylw arbennig i feysydd â blaenoriaeth a nodwyd yn eu cynlluniau pum mlynedd Safon 110 |
| **Amlder** | Hyd yn hyn, casgliad sylfaenol untro |
| **Hygyrchedd** | Ddim ar gael yn gyhoeddus |

### 7.1.4. Arolwg Llywodraeth Cymru o sgiliau Cymraeg aelodau byrddau yn y sector cyhoeddus

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Aelodau bwrdd byrddau iechyd |

| | |
|---|---|
| **Meysydd data allweddol** | Gallu yn y Gymraeg, ar draws:<br>1. Siarad<br>2. Gwrando<br>3. Darllen<br>4. Ysgrifennu<br>Graddfa hyfedredd:<br>a. Dim sgiliau<br>b. Sgiliau sylfaenol/canolradd<br>c. Sgiliau uwch |
| **Amlder** | Aneglur |
| **Hygyrchedd** | Ddim ar gael yn gyhoeddus |

## 7.2. Ffynonellau data sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol

### 7.2.1. Arolygiaeth Gofal Cymru

#### 7.2.1.1. Adroddiadau arolygu

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Lleoliadau gofal |
| **Meysydd data allweddol** | Lefelau graddio:<br>a. Mae'r darparwr gwasanaeth yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion pobl o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru.<br>b. Mae'r darparwr gwasanaeth yn gwneud ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant neu'n gweithio tuag at wasanaeth dwyieithog.<br>c. Nid yw'r darparwr gwasanaeth yn diwallu anghenion pobl o ran y Gymraeg a'i diwylliant ac mae angen gwella hyn.<br>Yn cyfateb i'r meysydd data sylfaenol canlynol yn system arolygu AGC:<br>a. Cynnig Rhagweithiol = Oes<br>b. Cynnig Rhagweithiol = Nac oes; yn gweithio tuag at y Cynnig Rhagweithiol = Ydy |

| | |
|---|---|
| | c. Cynnig Gweithredol = Nac oes; yn gweithio tuag at y Cynnig Rhagweithiol = Nac ydy |
| **Amlder** | Amrywiol, wedi'i bennu gan y math o wasanaeth a'r proffil risg |
| **Hygyrchedd** | Mae adroddiadau arolygu unigol ar gael ar gyfeiriadur gwasanaethau gofal ar-lein AGC |

#### 7.2.1.2. Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Lleoliadau gofal plant a chwarae |
| **Meysydd data allweddol** | Iaith y gwasanaethau a ddarperir:<br>a. Cyfrwng Cymraeg<br>b. Dwyieithog<br>c. Cyfrwng Saesneg gydag elfennau dwyieithog<br>d. Cyfrwng Saesneg |
| **Amlder** | Blynyddol |
| **Hygyrchedd** | Mae ystadegau cydgasgledig ar gael trwy ddangosfwrdd PowerBI rhyngweithiol ar wefan AGC |

#### 7.2.1.3. Datganiadau blynyddol ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a phlant |
| **Meysydd data allweddol** | Iaith y gwasanaethau a ddarperir:<br>a. Cyfrwng Cymraeg<br>b. Dwyieithog<br>c. Cyfrwng Saesneg |
| **Amlder** | Blynyddol |
| **Hygyrchedd** | Mae ystadegau cydgasgledig ar gael trwy ddangosfwrdd PowerBI rhyngweithiol ar wefan AGC |

### 7.2.2. Awdurdodau lleol

#### 7.2.2.1. Datganiadau data ar lefel unigol ar bobl sydd â chynllun gofal a chymorth gweithredol

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Unigolion â chynllun gofal a chymorth gweithredol yn ystod y flwyddyn adrodd |
| **Meysydd data allweddol** | Dewis iaith unigol fel y'i cofnodwyd yn systemau rheoli achosion awdurdodau lleol |
| **Amlder** | Blynyddol |
| **Hygyrchedd** | Ddim ar gael yn gyhoeddus |

#### 7.2.2.2. Datganiadau data cydgasgledig ar asesiadau o anghenion

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Asesiadau anghenion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn adrodd |
| **Meysydd data allweddol** | Nifer yr asesiadau:<br>1. Gyda thystiolaeth o'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg<br>2. Lle derbyniwyd y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg<br>3. A gwblhawyd yn newis iaith yr unigolyn |
| **Amlder** | Blynyddol |
| **Hygyrchedd** | Data wedi’i gyhoeddi ar StatsCymru fel pedair set ddata ar wahân (oedolion, plant a gofalwyr) |

### 7.2.3. Gofal Cymdeithasol Cymru

#### 7.2.3.1. Cofrestr Gofal Cymdeithasol Cymru

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig |
| **Meysydd data allweddol** | Gallu yn y Gymraeg, ar draws:<br>1. Siarad (0 i 5)<br>2. Gwrando (0 i 5)<br>3. Darllen (0 i 5) |

| | |
|---|---|
| | 4. Ysgrifennu (0 i 5)<br><br>Graddfa hyfedredd:<br><br>a. 0 – Dim sgiliau<br>b. 1 – Mynediad<br>c. 2 – Sylfaen<br>d. 3 – Canolradd<br>e. 4 – Uwch<br>f. 5 – Hyfedr |
| **Amlder** | Mae unigolion yn nodi eu gallu yn y Gymraeg wrth gofrestru, ac yn ailgofrestru pob tair blynedd, ond gellir diweddaru data ar unrhyw adeg |
| **Hygyrchedd** | Mae ystadegau cydgasgledig ar gael ar y Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol (a gynhelir gan Gofal Cymdeithasol Cymru) |

#### 7.2.3.2. Casglu data gweithlu blynyddol

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Gweithwyr gofal cymdeithasol mewn awdurdodau lleol a darparwyr gofal a gomisiynwyd |
| **Meysydd data allweddol** | Gallu yn y Gymraeg:<br><br>a. Dim gallu<br>b. Lefel mynediad<br>c. Sylfaen<br>d. Canolradd<br>e. Uwch |
| **Amlder** | Blynyddol |
| **Hygyrchedd** | Cyhoeddir canfyddiadau'n flynyddol mewn adroddiadau sydd ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru |

#### 7.2.3.3. Arolwg "Dweud eich dweud"

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Aelodau unigol o'r gweithlu gofal cymdeithasol |
| **Meysydd data allweddol** | Yn gallu siarad Cymraeg:<br>a. Ddim o gwbl<br>b. Lefel mynediad<br>c. Lefel sylfaen<br>d. Lefel uwch<br>e. Rhugl<br>Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith:<br>a. Drwy'r amser<br>b. Y rhan fwyaf o'r amser<br>c. Yn anaml<br>d. Byth |
| **Amlder** | Blynyddol |
| **Hygyrchedd** | Cyhoeddir canfyddiadau'n flynyddol mewn adroddiadau sydd ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru |

## 7.3. Ffynonellau data sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol

### 7.3.1. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

#### 7.3.1.1. System Rheoli Dysgu

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Oedolion sy'n dysgu Cymraeg ym maes gofal iechyd a chymdeithasol |
| **Meysydd data allweddol** | Gallu yn y Gymraeg (yn cyd-fynd â CEFR):<br>a. Mynediad (A1)<br>b. Sylfaen (A2)<br>c. Canolradd (B1) |

| | |
|---|---|
| | d. Uwch (B2)<br>e. Hyfedr (C1/C2)<br>Mae data hefyd yn cael ei gofnodi ar daith addysgol pob unigolyn cofrestredig (e.e. cofrestru, cwblhau ac ati) |
| **Amlder** | Casglu parhaus |
| **Hygyrchedd** | Ddim ar gael yn gyhoeddus |

### 7.3.2. Medr – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

#### 7.3.2.1. Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Dysgwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni a ariennir gan Medr, gan gynnwys addysg bellach, prentisiaethau, a dysgu cymunedol i oedolion |
| **Meysydd data allweddol** | Mae'r meysydd data perthnasol fel a ganlyn:<br>1. LP23 – Dangosydd siaradwr Cymraeg. Dewisiadau ymateb: Siaradwr Cymraeg rhugl; Siaradwr Cymraeg, ddim yn rhugl; Ddim yn siarad Cymraeg<br>2. LP67 – Y cymhwyster Cymraeg uchaf a gyflawnwyd cyn y rhaglen. Dewisiadau ymateb: Dim cymhwyster Cymraeg / cymhwyster cyn-fynediad; Lefel mynediad; Lefel 1 (e.e. TGAU D–G); Lefel 2 (e.e. TGAU A*–C); Lefelau 3+ (e.e. Uwch Gyfrannol / Safon Uwch)<br>3. LA26 – Math o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Dewisiadau ymateb: E1 – Dysgu ac asesu cyfrwng Saesneg; B3 – Ychydig bach o gynnwys cyfrwng Cymraeg; B2 – Cynnwys cyfrwng Cymraeg sylweddol; B1 – Dysgu dwyieithog; C1 – Dysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig |
| **Amlder** | Casglu ar sail dreigl gyda chyflwyniadau gan ddarparwyr o fewn wyth wythnos i gofrestru; ystadegau cydgasgledig yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol |
| **Hygyrchedd** | Cyhoeddir data cydgasgledig Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn flynyddol gan Medr; mae cyhoeddiadau'n cynnwys adroddiadau ystadegol ar wefan Medr a set o dablau cysylltiedig ar StatsCymru |

#### 7.3.2.2. Casglu data ôl-16

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Dysgwyr chweched dosbarth wedi cofrestru ar raglenni a ariennir gan Medr |
| **Meysydd data allweddol** | Cyfrwng iaith y gweithgarwch dysgu:<br>a. E – Cyfrwng Saesneg yn unig<br>b. C – Cyfrwng Cymraeg yn unig<br>c. P – Darpariaeth ddwyieithog (model dwyieithog ffurfiol)<br>d. R – Darpariaeth drwy grwpiau iaith ar wahân yn yr un dosbarth |
| **Amlder** | Blynyddol |
| **Hygyrchedd** | Ddim ar gael yn gyhoeddus |

#### 7.3.2.3. Cofnod Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Safonau Addysg Uwch (HESA)

| | |
|---|---|
| **Poblogaeth neu uned arsylwi** | Myfyrwyr sydd wedi cofrestru gyda darparwyr addysg uwch Cymru |
| **Meysydd data allweddol** | Gallu'r myfyriwr yn y Gymraeg, gan gynnwys:<br>1. Dynodwr hyfedredd ieithyddol – yr iaith y mae'r hyfedredd yn cyfeirio ati (gan gynnwys y Gymraeg)<br>2. Math o hyfedredd – y math o sgiliau a adroddir. Dewisiadau ymateb: Deall y gair llafar; Siarad; Darllen; Ysgrifennu; Arwyddo; Dim un o'r uchod; Ddim ar gael<br>3. Lefel o hyfedredd – gallu siarad hunanasesedig y myfyriwr. Dewisiadau ymateb: Rhugl; Yn gallu siarad cryn dipyn; Dim ond yn gallu siarad ychydig; Dim ond yn gallu dweud ychydig o eiriau; Ddim ar gael<br>Darpariaeth cyfrwng Cymraeg (lefel modiwl ac ymchwil ôl-raddedig):<br>1. Dynodwr iaith y modiwl – yr iaith y mae'r modiwl ar gael ynddi (e.e. Cymraeg, Gaeleg, Gwyddeleg)<br>2. Canran iaith y modiwl – cyfran y modiwl a gyflwynir yn yr iaith honno (0–100%) |
| **Amlder** | Blynyddol |

| | |
|---|---|
| **Hygyrchedd** | Mae Medr yn cyhoeddi'r datganiad blynyddol ar y Gymraeg mewn addysg uwch, ac mae rhai o'r ffigurau sylfaenol hefyd ar gael ar StatsCymru (er enghraifft, cofrestriadau addysg uwch a nifer y credydau a astudiwyd yn y Gymraeg a gallu myfyrwyr addysg uwch o Gymru i siarad Cymraeg) |